Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN,<br>28 MEHEFIN, 2021 am 1.00 o'r gloch yp** | **MONDAY,<br>28 JUNE, 2021 at 1.00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDION'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC AR UNABLE TO ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor   Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH GOGLEDD CYMRU (RHAN 9)- 2020/21** (Tudalennau 1 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r uchod.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2020/21** (Tudalennau 27 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn mewn perthynas â'r uchod.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU AC ADRODDIAD CHWARTER 4 CYNLLUN TWF** (Tudalennau 41 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru mewn perthynas â'r uchod.

6 **RAGLEN WAITH** (Tudalennau 91 - 96)

Cyflwyno y Raglen Waith y Pwyllgor.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad Blynyddol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fon Roberts– Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Emma Edwards – Dirpwy Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br>Emaedwards@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud.

Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2020-21 yn feysydd gwaith sy'n cael eu datblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gynnal cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

Hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2020-21. Yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (Atodiad 1).

Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid am Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2020-21.

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

Diben Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn narpariaeth

gwasanaethau. Gellir felly disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw amlinellu'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi ei wneud ac edrych ar sut y mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

Y risg yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r Canllawiau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Nid oes gan y Byrddau ffynonellau cyllid dynodedig ac mae eu gweithgareddau yn cael eu cyllido ar hyn o bryd gan gymysgedd o gyllid yr awdurdod lleol wedi’i gyfuno a brigdorri cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

**3.4** Craffu’n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

Gweler Atodiad 1

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Pa effaith mae gweithredu’r 4 rhaglen trawsnewid ar gyfer ‘Cymru Iachach’ wedi ei gael ar wasanaethau sy’n cael eu darparu i drigolion Môn, ac ym mha ffyrdd maent yn ymateb i’w hanghenion yn llwyddiannus ac yn ychwanegu gwerth?

2. Pa strwythurau sy’n eu lle er mwyn rheoli a monitro gwaith y Bartneriaeth yn rhanbarthol ac yn lleol, a pha fesurau lliniaru sydd ar waith er mwyn delio ag unrhyw risgiau posibl a wynebir?

3. I ba raddau y teimlir bod y Timau Adnoddau Cymuned yn cyflawni gweledigaeth y Cynllun Ardal o integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarthol?

4. Ym mha ffyrdd y bydd angen addasu a blaenoriaethu rhaglenni gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn sgil Covid 19, a beth fydd ei rôl yn ystod y cyfnod adfer?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gwblhau'r Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn. Felly mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r wybodaeth sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar waith y Bwrdd ar gael ar https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael ei ysgrifennu mewn fformat sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth o astudiaethau achos o gyllid a ddyfarnwyd i'r Bwrdd yn ystod 2020-21.

Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.

Diben Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Pwrpas yr adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac mae'n ystyried sut mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoedd Canllawiau Statudol Rhan 9 newydd ym mis Ionawr 2020 ac mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithio yn unol â'r Canllawiau hynny. Mae'r prif newidiadau yn ymwneud ag aelodaeth ychwanegol,

canolbwynt ychwanegol ar ddeilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc a chanolbwynt ychwanegol ar integreiddio gwasanaethau.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Does dim Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Yn 2020-21, mae dyfarniad cyllidebau a grantiau partneriaeth i'r Bwrdd, wedi gallu ariannu rhai gweithgareddau'r Bwrdd a thalu aelodau ychwanegol o staff i reoli ffrydiau gwaith y Bwrdd gan ddefnyddio'r cyllid hwn.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid grant rhanbarthol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol e.e. y Gronfa Gofal Integredig, Grantiau Darparu Trawsnewid. Mae partneriaid yn cytuno ar ddefnydd y grantiau ac yn cytuno ar y cyd ar gapasiti pobl rhanbarthol sydd ei angen i ddarparu ei raglenni. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol |


| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Dim papurau cefndir eraill. |

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2020/21




Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Contents

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) ....... 3

1. Llywodraethu'r Partneriaethau ....... 4

1.1 Pwrpas, Rôl, Aelodaeth, Strwythur Gweithredu a Blaenoriaethau Allweddol .... 4

1.3 Datblygu Partneriaeth Allweddol ....... 5

1.5 Cynnydd o ran gweithredu newidiadau i'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig ......... 7

2. Yr Wybodaeth Gyffredinol Ddiweddaraf ynghylch Cyflawni'r Cynllun Ardal ........10

2.1 Cynllun Ardal Gogledd Cymru ....... 10

2.2 Cymru Iachach ....... 10

3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol ....... 17

3.1 Ymgysylltu yng Ngogledd Cymru ....... 17

3.3 Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru ....... 18

4. Edrych tuag at y Dyfodol ....... 19

Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ....... 19

Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol ....... 21



# Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



Fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru mae’n bleser gen i gyflwyno adroddiad 20/21 – ac am flwyddyn oedd hi.

Cafodd pob un ohonom ni ein heffeithio gan bandemig Covid-19. Yn anffodus, collodd lawer o bobl eu bywydau i’r coronafeirws newydd a bu iddo amharu ar ein bywydau mewn nifer o ffyrdd gwahanol, yn enwedig bywydau pobl ddiamddiffyn. Felly hefyd o safbwynt system; mae Covid-19 wedi bod yn her anferth i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ond, wedi dweud hynny, mae ymroddiad ein gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ein gwirfoddolwyr a’n cymunedau wedi bod yn rhagorol.

Fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bu i ni ganolbwyntio’n ddoeth ar ‘bobl’ – yn gleifion ac yn staff, ein trefniadau cydweithio, y dull partneriaeth a darparu gofal di-dor. Dros y deuddeg mis diwethaf rydym ni wedi ymateb, addasu ac arloesi.

Gwelais gyfraniadau rhyfeddol gan staff, timau, sefydliadau, cymunedau, grwpiau a gwirfoddolwyr yn arbennig, a dw i’n teimlo’n falch iawn wrth i mi fyfyrio ar y cydweithio sydd wedi digwydd – pa un ai oedd hynny’n strategol, tactegol neu’n weithredol. A phawb gyda’r un nod – i wneud gwahaniaeth.

Fel miloedd o bobl, yn gwarchod eu hunain neu’n ynysu am resymau amrywiol, rydym ni hefyd wedi croesawu technoleg ddigidol i gysylltu â’n gilydd fel partneriaid, arweinwyr a darparwyr. Fel system gyfan, mae’n rhaid i ni ddefnyddio’r flwyddyn ryfedd hon i’n haddysgu a sicrhau bod yna gamau gweithredu cydlynol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi dod i'r amlwg. Yn wir, roedd yn flwyddyn o drawsnewid sylweddol mewn gwasanaethau, ac mae rŵan yn bryd i ni adeiladu ar yr arloesi hwnnw a bwrw ymlaen â’n datblygiadau gweithlu.

Wrth symud ymlaen mae’n rhaid i ni ganolbwyntio ar adfer ac adnewyddu, yn ogystal â pharhau i fod yn wyliadwrus rhag ton newydd o’r feirws. Mae’n rhaid canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol a lleol er mwyn i ni gipio unrhyw gyfle am newid cadarnhaol.

Cofion gorau – Teresa Owen

# 1. Llywodraethu'r Partneriaethau

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi pwrpas, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n amlinellu'r datblygiad partneriaeth allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a chynnydd o ran gweithredu newidiadau yn y Canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

## 1.1 Pwrpas, Rôl, Aelodaeth, Strwythur Gweithredu a Blaenoriaethau Allweddol

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyfarfod bob mis ac mae bellach yn cynnal cymysgedd o gyfarfodydd busnes ynghyd â sesiynau datblygu. Ym mis Rhagfyr 2020 adolygodd a diweddarodd y Bwrdd ei gylch gorchwyl.

**Datganiad o Weledigaeth**
***Cydweithio i wella lles pobl a chymunedau***

**Egwyddorion Arweiniol**

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r rhain yn parhau i fod yn addas i'r diben:

- Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol
- Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau)
- Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned
- Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau
- Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

"Yn ystod pandemig Covid-19 dw i wedi dysgu sut i ddefnyddio llechen electronig. Mae hyn wedi bod yn gymorth mawr i mi, gan fy mod i rŵan yn gallu cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, teulu a grŵp cefnogi ar-lein. Dydw i ddim yn teimlo mor unig, ac mae wedi bod yn help mawr i'm hiechyd meddwl hefyd."

Mae Will yn byw ar ei ben ei hun a doedd ganddo ddim mo'r arian i brynu llechen, felly gwnaeth y LAC gais i brosiect y Cyngor, a oedd yn cynnig dyfeisiau i-Pad i aelodau o'r gymuned er mwyn iddyn nhw gadw mewn cysylltiad â phobl.

**Cydlynydd Asedau Lleol (LAC) a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig – dull gweithio newydd gyda chymunedau a ddatblygwyd ar Ynys Môn**

## 1.2 Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru


Adolygir Cylch Gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth

Rhanbarthol yn flynyddol, fodd bynnag rôl hanfodol y Bwrdd ydi:

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chymru Iachach
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni ei amcanion
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes y Bwrdd a busnes yr is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol.

Cafodd strwythur llywodraethu'r Bwrdd ffurfioli ym mis Ionawr 2021 ac mae'r strwythur i'w weld isod. Adolygwyd ein cylch gorchwyl ym mis Tachwedd 2020. Mae aelodau'r Bwrdd (ar ddiwedd mis Mawrth 2021) i'w gweld yn Atodiad 1.




## 1.3 Datblygu Partneriaeth Allweddol


Oherwydd pandemig Covid-19 gohiriwyd yr holl ddatblygiadau partneriaeth a oedd ar y gweill.

Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu partneriaeth, rydym ni wedi cymryd rhan ymhob digwyddiad dysgu Llywodraeth Cymru a chyfarfod gyda'r Gweinidog yn 2020. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i weithio gyda Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu ymateb lleol a rhanbarthol cydlynol i

anghenion lles unigolion.

Rydym ni’n mynychu cynadleddau a seminarau i arddangos gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol e.e. Cynhadledd Flynyddol Genedlaethol Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, yn 2020, gan fod y gynhadledd hon yn cael ei chynnal ar-lein, nid oedd modd arddangos gwaith y Bwrdd.

Rydym ni wedi cadarnhau ein blaenoriaethau a’n dogfen ffocws ar gyfer y tymor byr a’r tymor hwy. Mae hyn yn cysylltu â’n Cynllun Ardal a blaenoriaethau presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.




## 1.4 **Fforwm Mwy Na Geiriau**

Nod fframwaith strategol Mwy Na Geiriau ydi arwain ar nifer o welliannau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mam iaith, heb orfod gofyn am hynny. Mae aelodaeth y Fforwm Mwy Na Geiriau yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor.

Wrth gwrs, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar ein gwaith fel Fforwm. Nid oedd modd i ni gwrdd wyneb yn wyneb yn 2019-21 ac felly rydym ni wedi penderfynu adrodd ar 2019-21 er mwyn darparu diweddariad cynhwysfawr o’r gwaith sy'n cael ei wneud ymhob sefydliad.


Er gwaethaf y pandemig, mae ystod eang o waith da wedi’i wneud gan bob partner, ar faterion fel gweithio integredig, hyfforddiant, gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni. Wrth gwrs, mae’r partneriaid yn cyflawni peth wmbredd o fewn y maes gwaith hwn yn annibynnol o’r Fforwm, ond mae’r adroddiad hwn yn gyfle i rannu a lledaenu arferion da ymhellach, a nodi nodau ac amcanion i’r dyfodol.

## 1.5 Cynnydd o ran gweithredu newidiadau i’r canllawiau Rhan 9 diwygiedig

Yn dilyn derbyn y Codau a Chanllawiau Rhan 9 diweddaraf ym mis Ionawr 2020, roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bwriadu trafod y newidiadau gofynnol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, ond bu’n rhaid gohirio hwnnw oherwydd Covid-19. Ymunodd cynrychiolwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig â’r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018 a mis Chwefror 2019 yn y drefn honno; bydd Cadeirydd y Bwrdd yn ceisio enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr Addysg a Thai Awdurdod Lleol drwy’r Fforwm Prif Weithredwyr rhanbarthol.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn bresennol i drafod gwaith y Bwrdd o ran cyflawni’r flaenoriaeth i sefydlu gwasanaethau integredig ar gyfer ‘plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anableddau neu salwch ac i blant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl’. Mae is-grŵp eisoes wedi’i sefydlu i oruchwylio darpariaeth ein partneriaeth Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Mae gennym ni Ganolfan Gomisiynu Strategol hir-sefydlog yn y rhanbarth sydd wedi’i thanategu gan gytundeb partneriaeth a’i hariannu gan bartneriaid. Mae’r rhaglen waith wedi’i halinio gyda gwaith y Byrddau Trawsnewid, gan nodi ym mhle y galli ychwanegu gwerth / cefnogi’r rhaglen drawsnewid:




**Gweithlu Rhanbarthol**

Mae’r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn parhau i gefnogi darpariaeth Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Gogledd Cymru, yn ogystal â sicrhau darpariaeth i gefnogi strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae datblygiad a darpariaeth rhaglen waith sy'n hyblyg ac yn canolbwyntio ar faterion penodol wedi bod yn sail i welliant parhaus a chyflawniad yn ystod 12 mis o heriau ac ansicrwydd.

Mae effaith pandemig y coronafeirws wedi amlygu'r angen i ddarparu cefnogaeth addas i ddarparwyr gofal ledled y rhanbarth. Arweiniodd trafodaethau cynnar gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) at ddatblygu a gweithredu Memorandwm o Ddealltwriaeth, gan alluogi darparwyr gofal i gael mynediad at staff banc BIPBC i gyflenwi yn ystod cyfnodau o ddiffyg staff. Wrth i'r pandemig barhau, roedd angen diwygio a gwella'r Memorandwm o Ddealltwriaeth. Cafodd y meini prawf ar gyfer angen eu mireinio, cadarnhawyd cyfrifoldebau pawb a oedd yn gysylltiedig a symleiddiwyd y gefnogaeth weinyddol. Dewisodd y chwe Awdurdod Lleol i gytuno â'r cytundeb gyda BIPBC, i ddefnyddio'r cyfleuster pan fo angen. Byddwn yn ail-edrych ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth fel rhan o'n rhaglen gwaith i'r dyfodol. Bydd gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi a bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cael ei adolygu i sicrhau bod y meini prawf, y cyfrifoldebau a'r prosesau yn parhau i fod yn ddilys, gan gyflwyno gwelliant ble bynnag fo'n bosib.

Mae ymgyrch genedlaethol Gofalwn i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal wedi'i chefnogi drwy ddatblygu tudalen Facebook rhanbarthol. Ar ôl ei chreu ddiwedd mis Hydref 2020, erbyn mis Tachwedd roedd y dudalen wedi cyrraedd 31,195 o bobl, gyda 1,572 yn ymgysylltu a thros 200 wedi'i hoffi. Cafodd hyn ei ymestyn yn ystod y cyfnod cyn y ffair yrfaoedd ar-lein ac wythnos Gofalwn ym mis Tachwedd 2020.

Mae cofrestru gweithlu gofal preswyl yn un o ofynion RISCA a ddylid ei fodloni erbyn 2022. Yn ystod y pandemig dydi hyn ddim wedi bod yn fater sydd wedi'i bwysleisio. I fynd i'r afael â hyn, mae sesiynau briffio rhanbarthol ar draws y chwe Awdurdod Lleol wedi'u trefnu i egluro'r pedwar dull cofrestru sydd ar gael i weithwyr gofal ac i bwysleisio bod hyn yn gyfrifoldeb ar y cyflogwr. Bydd adolygiad o ddata Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n ymwneud â rheiny sydd wedi cofrestru, yn cael ei fonitro i nodi unrhyw risg gwasanaeth. Bydd y porth darparwyr rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i anfon negeseuon atgoffa a bydd y timau comisiynu hefyd yn cymryd camau gweithredu.

Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i nodi a gweithredu camau allweddol a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau i weithlu Gwaith Cymdeithasol plant yng ngogledd Cymru. Mae tair ffrwd waith wedi'i nodi – recriwtio, datblygu, cadw. Bydd gwaith yn cael ei wneud rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2021, a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithlu ym mis Gorffennaf.

Mae 'Rhaglen Camu i Waith' BIPBC yn rhaglen wirfoddoli sy'n darparu lleoliad gwaith i amrywiaeth o bobl e.e. unigolion o gartrefi di-waith, pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers peth amser, Scope a myfyrwyr addysg uwch a phellach. Mae gweithgor wedi'i sefydlu'n ddiweddar ac er y dyddiau cynnar iawn ymddengys y gallai cydweithio arwain at ddatblygu rhaglen sy'n bodloni gofynion y sector iechyd a'r sector gofal.

Mae'r Prosiect Economi Sylfaenol wedi nodi y byddai asiantaeth staffio nid-er-elw ardal yn ddatrysiad posibl i gyflenwi staff a gwasanaethau eraill i ychwanegu gwerth ar y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal iechyd yng ngogledd Cymru. Gall y model fod yn hyblyg i gwrdd ag anghenion lleol, a helpu i recriwtio a chadw staff yn

yr ardal, gan ddarparu gweithwyr sy'n deall diwylliannau lleol ac yn siarad Cymraeg. Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi'u trefnu gydag Ynys Môn/Gwynedd (Gorllewin), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Cyngor Sir Ddinbych (Canol) a Chyngor Sir y Fflint/Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (dwyrain) i weld sut mae modd defnyddio canfyddiadau'r prosiect er budd pob ardal.

# 2. Yr Wybodaeth Gyffredinol Ddiweddaraf ynghylch Cyflawni'r Cynllun Ardal

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynir y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion allweddol yn y cynllun ardal a'r meysydd o flaenoriaeth ar gyfer integreiddio yn unol â'r cyfarwyddyd Rhan 9, gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd ar ran defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr. Mae'n ymdrin yn benodol â'r grwpiau blaenoriaeth a bennwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ystod 2020-21 parhaodd y Bwrdd i ddatblygu ei ddulliau o ran gwasanaethau integredig ar gyfer ei feysydd blaenoriaeth.

## 2.1 Cynllun Ardal Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Ardal yn pennu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn mynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sy'n dal i gysylltu meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth.

## 2.2 Cymru Iachach

Er bod Covid-19 wedi effeithio ar flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2020/21, cafwyd llwyddiant wrth gyflawni'r pedair rhaglen drawsnewid ar gyfer 'Cymru Iachach' a ddyluniwyd i beri i wasanaethau integredig cymunedol ddatblygu'n gyflym ledled y rhanbarth, a chyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol i bobl.

### 2.2.1 Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol



Mae Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn rhaglen waith uchelgeisiol sydd â'r nod o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well ar lefel ardal ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai hynny sy'n byw gyda dementia, pobl ag anableddau corfforol a gofalwyr di-dâl.
Wrth wraidd y model hwn sy'n seiliedig ar leoedd, mae penderfyniad i ddarparu trefniadau llywodraethu integredig gwell, yn ogystal â datblygu strwythurau darparu gweithredol sy'n sicrhau dull cydlynol a di-dor o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i greu rhaglen gadarn ar gyfer newid.

Mae trawsnewid y modd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol yn cydweithio yn waith hirdymor. Gwnaed cynnydd wrth osod partneriaid mewn sefyllfa gref i gyflawni newid go iawn.

Yn y Gorllewin cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaethol ymhob maes. Ategir y gwaith integredig gan safle *SharePoint* a fydd ar gael i'r holl bartneriaid at ddibenion rhannu gwybodaeth am y Timau Adnoddau Cymunedol a'r Rhaglen Drawsnewid yn ei chyfanrwydd. Mae hynny'n cynnwys 'bwrdd sgrymio' ar gyfer pob un o feysydd gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n cynnal y momentwm ac yn sicrhau y caiff yr holl fudd-ddeiliaid allweddol fynediad at wybodaeth berthnasol. Bellach mae yno


fwrdd electronig i gofnodi rhwystrau, ac mae gwaredu rhwystrau'n un o'r pynciau y mae uwch-reolwyr yn eu trafod yn y cyfarfodydd cynnydd a gynhelir bob pedair wythnos.

### 2.2.2 Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc

Mae Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar amcan cyffredinol i gyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae tair haen i'r rhaglen:

- Ymgyrch aml-asiantaethol i wella iechyd emosiynol plant a phobl ifanc, eu lles a'u gwytnwch, drwy ymyrryd yn gynnar ac atal mewn ffordd integredig, gan gynnwys datblygu a diwygio canolfannau cymorth cynnar lleol ymhellach




- Ymchwilio a datblygu ymyriadau 'ymateb cyflym' (allgymorth argyfwng) yn seiliedig ar dystiolaeth i blant a theuluoedd ar ffiniau gofal
- Datblygu gwasanaethau preswyl tymor byr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu datblygiadau arwyddocaol yn y rhaglen; ffurfiwyd dau dîm amlddisgyblaethol is-ranbarthol newydd sydd wedi darparu gwasanaethau i 36 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Crëwyd rhaglen hyfforddiant strategol i gefnogi trydydd tîm amlddisgyblaethol is-ranbarthol a darparwyd 341 o sesiynau hyfforddi.

Sefydlwyd dwy wahanol ddarpariaeth breswyl tymor byr i gefnogi'r timau amlddisgyblaethol. Mae'r ddau brosiect yn anelu at ddarparu'r gwasanaethau yn y flwyddyn a hanner nesaf.

Mae'r ffrwd waith Iechyd Emosiynol, Lles a Gwytnwch wedi creu fframwaith peilot rhanbarthol i blant 8-11 oed, gan lunio egwyddorion arweiniol ar gyfer cynnal datblygiad iach o ran iechyd emosiynol plant a phobl ifanc, eu lles a'u gwytnwch, gan gwmpasu'r pum ffordd at lesiant. Mae ffrwd waith arall wedi sefydlu tîm ymyrraeth gynnar i ganolbwyntio ar roi cymorth yn gynnar i blant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, a mabwysiadu dull 'dim drws anghywir' yn hynny o beth.

Wrth ymateb yn uniongyrchol i'r pandemig llwyddodd y rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc i gefnogi prosiectau gwytnwch cymunedol a fu'n gymorth i blant a phobl ifanc yn y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â chyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer y rhaglen.

## 2.2.3 Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Mae'r tîm yn gweithredu'r strategaeth drwy bump o ffrydiau gwaith: strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol a thechnoleg gynorthwyol.




Bu 2020/2021 yn flwyddyn brysur iawn i **Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru gyda'n Gilydd**; oherwydd effeithiau'r pandemig bu'n rhaid rhoi cynlluniau gwaith o'r neilltu wrth i rai swyddogion arweiniol ddychwelyd i'w swyddi parhaol i helpu gyda'r argyfwng. Fe wnaeth holl aelodau'r tîm ddal i weithio o bell a llunio strategaethau i oresgyn yr anawsterau fel y gellid gweithredu prosiectau'n rhithiol, gan gefnogi partneriaid i gyflawni eu hamcanion mewn gwahanol ffyrdd.

**Er gwaethaf yr anawsterau cafwyd cryn lwyddiant mewn rhai meysydd: Ar y cyfan sefydlwyd 52 o brosiectau peilot a gomisiynwyd ar y cyd ledled gogledd Cymru i ategu cyflawniad y rhaglen.**

Dilynwch y ddolen hon i weld rhai o'r uchafbwyntiau: [Hafan -Home - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd (gogleddcymrugydangilydd.org)]

Mae dogfen ar ein gwefan yn cynnwys blaenoriaethau 2020/2021: [Gwybodaeth am y Prosiect - Project Information - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd (gogleddcymrugydangilydd.org)]

## 2.2.4 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Gwnaed cynnydd arwyddocaol cyn Covid-19, er enghraifft, wrth sefydlu gwasanaeth Gofal heb ei Drefnu ICAN a datblygu canolfannau Ican mewn wyth o drefi ledled y Gogledd.

Mae'r pandemig wedi creu cynnydd aruthrol yn y galw gan bobl sydd arnynt angen cefnogaeth gyda'u hiechyd a lles emosiynol. Bu rhwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r Rhaglen gan fod y rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddarparu unrhyw wasanaethau wyneb yn wyneb. Roedd yn ofynnol hefyd i staff Tîm y Rhaglen ail-bennu eu blaenoriaethau er mwyn cynorthwyo gydag ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r pandemig. Er gwaethaf hynny, roedd ymateb y Rhaglen i'r amgylchiadau eithriadol hyn yn chwim, yn gadarn ac yn sensitif, ac aethpwyd ati i sefydlogi ac ehangu'r gweithlu o wirfoddolwyr er mwyn darparu gwasanaeth cefnogi dros y ffôn, a bu hynny'n hanfodol bwysig i nifer arwyddocaol o bobl.

Mae gan y Rhaglen ICAN gynllun pendant ar gyfer dal ati i weithredu'r rhaglen gydol 2021/22 ac wedi sicrhau cyllid ar gyfer hynny gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 2.2.5 Canolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant

Nod y ganolfan yw cydlynu gwaith ymchwil, arloesi a gwella yng ngogledd Cymru i fod yn sail ar gyfer dulliau integredig newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r ymrwymiad a wnaed yn y cynllun Cymru Iachach.

Roedd yr uchafbwyntiau yn 2020-21 yn cynnwys cwblhau adolygiad cyflym o effaith Covid-19 ar bobl sydd arnynt angen gofal a chymorth, gan gynnwys arloesi mewn gwasanaethau. Fe gynorthwyom brosiectau trawsnewid i ddefnyddio tystiolaeth drwy gynnal chwiliadau o ddeunydd darllen, gan gynnwys adnoddau i gynnal lles plant, a darparu cyngor a chymorth gyda chreu arolygon ar-lein, dadansoddi data a dulliau ymchwil ar gyfer adrodd hanes. Gweithiom â phrosiectau wedi'u hariannu gan y Gronfa Gofal Integredig i ystyried materion fel graddfa, arferion da ac arloesi. Fe gyfrannom at wella cydlyniant drwy adnabod prosiectau tebyg mewn gwahanol sectorau/asiantaethau a chreu cysylltiadau rhyngddynt. Buom yn gweithio ar brosiectau cenedlaethol er mwyn osgoi dyblygu gwaith yn lleol a ffurfiom rwydweithiau cedyrn â chanolfannau rhanbarthol eraill. Er enghraifft, gweithiom gyda Gofal Cymdeithasol Cymru wrth ystyried y modd y defnyddir tystiolaeth ym maes Gofal Cymdeithasol, ac fe rannom ffrwyth ein gwaith o chwilio deunydd darllen â rhanbarthau eraill. Aethom ati hefyd i ddefnyddio ein gwefan i amlygu'r gwahanol ddulliau o hyrwyddo arloesi mewn gwahanol sectorau (Labordai Byw, Hacs Iechyd, Labordai Arloesi). Trefnom Labordy Arloesi Gofal Cymdeithasol gyda Phrifysgol Bangor a oedd yn canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol. Buom hefyd yn gweithio â'r Asiantaeth Arloesi wrth ddatblygu'r cysyniad o Labordy Byw a dod ag ymarferwyr ac ymchwilwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa yng ngogledd Cymru o ran ymchwil, arloesi a gwella.

Daliom ati i hyrwyddo digwyddiadau, cyfleoedd ariannu a gwaith y tîm ar ein gwefan, ein cyfrif Twitter a thrwy newyddlenni rheolaidd dros e-bost. Mae hynny'n cynnwys

trydar yn fyw yn ystod digwyddiadau allweddol yn y rhanbarth. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd mwy na 170 o bobl yn dilyn ein cyfrif Twitter a 130 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r Ganolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella.

Dilynwch ni ar Twitter @NW_RIICH_ / @NW_RIICH ac/neu ewch i Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant | North Wales Collaborative (cydweithredfagogleddcymru.cymru) i gael rhagor o wybodaeth.

## 2.3 Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru

Yn 2020-21 rhoes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyaeth i Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru, a rhannwyd y strategaeth honno'n helaeth â phartneriaid er mwyn ei mabwysiadu a'i gweithredu. Ail-ffurfiwyd Grŵp Llywio Dementia'r Bartneriaeth yn dilyn y don gyntaf o'r pandemig byd-eang, a buddsoddwyd i greu swydd Rheolwr Prosiect Dementia Rhanbarthol i gynorthwyo gyda gweithredu'r Strategaeth Ddementia yn y rhanbarth. Ers mis Ionawr 2021 mae'r grŵp llywio wedi diwygio'i gylch gorchwyl ar gyfer gweithredu'r strategaeth, mynd ati i adolygu ac ystyried effaith y pandemig ar y strategaeth, a llunio cynllun gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn 2021-22.




**Mae'r hyn a gyflawnwyd yn 2020-21 yn cynnwys:**

- Adolygu Llwybr Safonau Gofal Dementia ar gyfer Cymru Gyfan fel y'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i gynnwys yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Ddementia
- Datblygu Fforwm Ymgysylltu Dementia er mwyn cefnogi'r Grŵp Llywio i weithredu'r strategaeth mewn modd priodol ac effeithiol
- Mapio'r cyfleoedd ar gyfer adnabod blaenoriaethau i'w gweithredu drwy'r Strategaeth Ddementia a'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu 2021/22
- Buddsoddi mewn prosiectau ac adnoddau cefnogi sy'n ategu gweithrediad y Strategaeth Ddementia
- Datblygiadau i ddarparu Gwasanaeth Asesu Cof rhithiol yn y rhanbarth wrth fynd i'r afael â'r rhestr aros sydd wedi tyfu oherwydd y pandemig
- Dosbarthu pecynnau Enfys Lles i bobl ar restr aros y gwasanaethau Asesu Cof, i'w cefnogi wrth iddynt aros am asesiad
- Cais llwyddiannus am arian gan Lywodraeth Cymru i gyflogi Rheolwr Prosiect i ymdrin yn benodol â materion gwledig a'r iaith Gymraeg yng ngogledd Cymru a Phowys
- Mynd ati gyda phartneriaid i weithredu 11 o'r 31 o gamau gweithredu yn y Strategaeth Ddementia.


Bydd Grŵp Llywio Dementia Gogledd Cymru'n dal i ddatblygu ei raglen waith er mwyn medru gweithredu'r Strategaeth a Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan ledled y rhanbarth yn 2021-22.

## 2.4 Cyllid Gofal Integredig

Yn ystod 2020-21, buddsoddwyd cyfanswm o £18.92 miliwn o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig mewn 120 o brosiectau ledled ein rhanbarth. Gwariwyd ychydig dros £5.2 miliwn ar brosiectau a oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol a buddsoddwyd £2.6 miliwn i gefnogi prosiectau gan sefydliadau trydydd sector.

Mae'r grwpiau canlynol yn rhai sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio ac mae'n rhaid i bob rhaglen ranbarthol y Gronfa Gofal Integredig ymgymryd â nhw yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a'u cynlluniau ardal:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a salwch tymor hir, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Plant ag anghenion cymhleth; a
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.




Daliwyd ati i ddatblygu prosiectau i gefnogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor. Mae yno 26 o brosiectau sy'n cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd, 36 o brosiectau i gefnogi pobl ag anableddau dysgu a 21 o brosiectau sy'n darparu ymyrraeth gynnar i bobl ifanc a'u teuluoedd.

Addaswyd 24 o brosiectau fel bod modd dal ati i'w darparu'n ddiogel yn ystod y pandemig Covid-19. Bu'n rhaid atal nifer o brosiectau dros dro gan nad oedd modd eu darparu'n ddiogel, a dargyfeiriwyd y cyllid i brosiectau a oedd wedi'u haddasu ac angen mwy o adnoddau.

Yn ogystal â chyllid refeniw derbyniodd rhanbarth y Gogledd £9.41 miliwn o gyllid cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig a ddefnyddiwyd i gynnal 70 o brosiectau yn 2020/21. Cafodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ganiatâd Llywodraeth Cymru i ddargyfeirio cyllid cyfalaf i gynlluniau a oedd yn cefnogi'r ymdrechion rhag Covid-19 a thrwy hynny ariannwyd 35 o gynlluniau Covid. Defnyddiwyd cyllid cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig i gynnal 17 o brif gynlluniau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Roedd y rheiny'n cynnwys canolfan llesiant yn Wrecsam, Canolfan Dementia Integredig ym Mhwllheli a Chanolfan Asesu Breswyl i Blant ym Mae Colwyn.

## 2.5 Arian y Gaeaf

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £2.05 miliwn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi cyflawniad y llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu fel rhan o Gynllun y Gaeaf.

Mae'r llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu wedi'u nodi isod, a chynhaliodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 44 o gynlluniau i ategu darpariaeth y llwybrau hynny. Roedd y cynlluniau'n cynnwys:

- Timau Adnoddau Cymunedol yn gweithio saith niwrnod yr wythnos, ac ychwanegu at dimau fel y gellid bod yn barod i ddarparu gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty
- Ymateb cyflym llai dwys a darparu ychwanegedd yn y gwasanaeth gofal cartref
- Ychwanegu Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd a Nyrsys Cymunedol, gan gynnwys Nyrs Seiciatryddol, i gefnogi asesiadau a rhyddhau o'r ysbyty
- Mwy o Weithwyr Cymorth Dementia.



## 3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol nodir sut aeth y Bwrdd ati i ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau neu baneli dinasyddion, a hyrwyddo cydweithrediad a chyfranogiad â phartneriaid perthnasol ac eraill. Mae'n esbonio sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol a'r cynnydd a wnaed wrth sefydlu fforymau i hybu gwerth cymdeithasol a rhannu arferion da.

### 3.1 Ymgysylltu yng Ngogledd Cymru

O ganlyniad i Covid-19 nid oedd modd cynnal gweithgareddau ymgysylltu fel fforymau, sesiynau grŵp, digwyddiadau cyhoeddus a sesiynau wyneb yn wyneb, ond mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i ymgysylltu â phobl drwy ddulliau gwahanol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, ar-lein, Teams/Zoom, ar y ffôn a thrwy bartneriaid a budd-ddeiliaid.

Yn 2020 llwyddodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol â chais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflogi Swyddog Ymgysylltu i weithio gyda swyddogion cyfathrebu ac ymgysylltu presennol y sefydliadau partner, er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch y Bwrdd a'i waith. Drwy gael Swyddog Ymgysylltu pwrpasol mae'r Bwrdd yn medru cyflymu ei weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu a datblygu ar sail y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

### 3.2 Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Yn anffodus nid yw'r Grŵp Llywio wedi cwrdd ers mis Chwefror 2020 gan na fu modd dod o hyd i Gadeirydd, a bu'n rhaid i nifer o aelodau symud i wasanaethau eraill i roi cefnogaeth. Serch hynny, mae Cadeirydd dros dro wedi'i benodi bellach a bydd y grŵp yn ailddechrau o'r newydd.

Bydd y grŵp llywio'n dod ynghyd unwaith eto i rannu profiadau a gwersi a ddysgwyd, ac adnabod cyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau y datblygir dull cyson gydol y rhanbarth. Bu nifer o newidiadau ers pan gyfarfu'r grŵp ddiwethaf, nid yn unig o ran deddfwriaeth newydd a diwygiedig sy'n gosod mwy o ddyletswyddau ar y sector cyhoeddus i ymgorffori gwerth cymdeithasol yn eu dulliau gweithredu, ond hefyd ar ffurf cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol. Hefyd, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyhoeddi'r adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru sy'n cynnwys argymhellion i awdurdodau lleol ynglŷn â gweithredu'r Ddeddf.

Mae aelodaeth bresennol Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Cymru yn cynnwys trawstoriad o'r holl rwydweithiau perthnasol. Gan nad yw'r grŵp wedi cwrdd ers mis Chwefror 2020, fodd bynnag, mae'n awr yn gyfle da i adnabod y cysylltiadau allweddol/swyddogion arweiniol gwerth cymdeithasol ymhob awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd a sefydliadau yn y sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y ceir cynrychiolaeth briodol a chywir, ac er mwyn ehangu aelodaeth y Grŵp Llywio i gynnwys y rhai hynny sy'n cynnig yr adnoddau a gwasanaethau a fedr ategu gwerth cymdeithasol a dod â buddion cymunedol i bob cwr o'r Gogledd.

Yn sgil cam gweithredu a ddeilliodd o gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ddiweddar i fwrw ymlaen â chynigion gan y trydydd sector, mae'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol bellach yn gweithio â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chynrychiolwyr dinasyddion ar y Bwrdd i greu rhestr o holl gynigion y trydydd sector er mwyn bod yn barod ar gyfer unrhyw gyllid a ddaw ar gael.  Bydd y chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol yn cymryd rhan yn y prosiect er mwyn sicrhau y mabwysiadir dull rhanbarthol.

Er mwyn cael golwg ehangach ar ddatblygiad y cynigion hyn ar ran y trydydd sector, bydd y syniadau a nodir gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cael eu rhannu drwy Rwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru a Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru, yn ogystal â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fel y gellir cytuno pa gynigion y dylid eu blaenoriaethu ar sail y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

### 3.3 Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru

Mae Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru a Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru wedi dal ati wrth gyflawni Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau cynnal gofalwyr ar ran awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector yn y rhanbarth.

Penderfynwyd y llynedd i uno'r ddau grŵp gweithredol er mwyn prif-ffrydio gwasanaethau cynnal i ofalwyr a gofalwyr ifanc gydol y sector, ac ers hynny bu'r grŵp newydd yn cwrdd bob chwarter.  Yn ôl y grŵp mae hyn wedi rhoi'r cyfle i aelodau nodi meysydd gwaith lle gall swyddogion arweiniol gofalwyr a gofalwyr ifanc gydweithio gyda phartneriaid ar brosiectau a ffrydiau gwaith.

Mae cynlluniau gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru a Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru dan adolygiad ar hyn o bryd, yn unol â'r Strategaeth Gofalwyr Di-dâl a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n ddiweddar a'r pedair blaenoriaeth genedlaethol, er mwyn cadw golwg ar gynnydd y partneriaid unigol ymhob grŵp gweithredol a mesur hynny yn erbyn safonau craidd y Strategaeth.

Ym mis Ebrill 2021 dechreuodd ein gwasanaeth hwyluso rhanbarthol ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, Buddsoddi mewn Gofalwyr: Gweithio gyda'n Gilydd i Gefnogi Gofalwyr, a ariannwyd drwy Grant Gofalwyr blynyddol Llywodraeth Cymru.  Ein partneriaid yn y trydydd sector sy'n darparu'r gwasanaeth hwn, gan weithio'n agos â chanolfannau gofal sylfaenol ac eilaidd a'u hannog i adnabod gofalwyr a gofalwyr ifanc yn fuan a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr a'u hawliau.    Mae Cynnal Gofalwyr a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ledled gogledd Cymru i gefnogi meddygfeydd, ysbytai a sefydliadau eraill yng nghymunedau gofalwyr i ddatblygu cynlluniau i gynnig gwybodaeth a chyngor i ofalwyr, gan gynnwys cynllun achredu Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Seiliwyd contract eleni ar ganlyniadau'n bennaf, gyda dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ei wraidd, gan gydnabod fod pob gofalwr yn unigryw a bod ganddynt oll wahanol anghenion.  Bydd y darparwyr yn cyflawni'r canlyniadau allweddol fel bod yr unigolion a gefnogir yn cyflawni eu nodau, dyheadau a'u blaenoriaethau hwythau.

## 4. Edrych tuag at y Dyfodol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynir y blaenoriaethau y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio arnynt yn 2021-22 a thu hwnt, gan amlygu'r meysydd hynny y mae Covid-19 wedi cael effaith arnynt gan arwain at ail-bennu blaenoriaethau neu gyfeiriad strategol.

### 4.1 Effaith Covid

Mae COVID-19 yn dal yn ein plith, ond cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth bob mis yn rhithiol.

Er mwyn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd, partneriaid, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn dal i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, dosbarthwyd newyddlen ym mis Chwefror 2021 i amlygu'r llwyddiant a gafodd y gwasanaethau wrth weithredu'u rhaglenni gydol 2020/21. Sefydlwyd trefniadau llywodraethu dros dro ym mis Mawrth 2020, gyda sêl bendith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a pharhaodd y rheiny gydol y cyfnod Covid. Gan nad oedd modd cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yn rhithiol ar y dechrau, a bod angen sefydlu trefniadau ar fyrder, fe wnaeth y trefniadau llywodraethu dros dro alluogi'r Bwrdd partneriaeth i gynnal ei drafodion drwy e-bost.

### 4.2 Blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 a thu hwnt

Rydym wedi cadarnhau ein blaenoriaethau a dogfen ffocws ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy.  Mae hyn yn cysylltu gyda'n Cynllun Ardal a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Sonnir am hyn yn adran 1.1.

## Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Fel ag yr oedd ddiwedd mis Mawrth 2021

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Bethan Jones Edwards | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol |
| Bethan E Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Fôn Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dr Chris Stockport | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Y Cynghorydd Bobby Feeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd Christine Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd Joan Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Louise Emery | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Dafydd Meurig | Cyngor Gwynedd |
| Roma Hooper (Gweithredu dros Blant) | Cynrychiolydd y Trydydd Sector |
| Estelle Hitchon | Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Cyfetholedig) |
| Ffion Johnstone | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Jenny Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Judith Greenhalgh | Cynrychiolydd Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru/Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych |
| Kevin Roberts | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cyfetholedig) |
| Lucy Reid | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Mark Wilkinson | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Mary Wimbury | Cynrychiolydd Darparwyr |
| Morwena Edwards | Cyngor Gwynedd |
| Helen Corcoran (o fis Tachwedd 2019) | Heddlu Gogledd Cymru (Cyfetholedig) |
| Neil Ayling | Cyngor Sir y Fflint |
| Nicola Stubbins | Cyngor Sir Ddinbych |
| Rob Smith | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Steve Gadd | Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) (Cyf-etholedig) |
| Shan Lloyd Williams | Cynrychiolydd Tai |
| Teresa Owen | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| John Gallanders | Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Gogledd Cymru (Cyfetholedig) |
| Ruth Whittingham | Cydweithio Rhanbarthol |

## Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol

Mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynd i gytundeb cyfreithiol – "Cytundeb Integreiddio" – sy'n cadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio ar brosiectau allweddol a nodwyd fel rhai addas ar gyfer gwasanaethau integredig a threfniadau cyllideb gyfun.

Caniateir defnyddio'r darpariaethau statudol canlynol i danategu gwaith y Bwrdd:

- Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – adrannau 166 a 167 yn benodol a rheoliadau cysylltiol (Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015).

Dibynnwyd ar bwerau cyfreithiol eraill i gefnogi partneriaethau rhanbarthol yr ymunwyd â hwy, gan gynnwys:

- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – adrannau 1, 2, 10, 33, 38 ac 82 yn bennaf.
- Pwerau Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas â chydweithio gydag awdurdodau lleol eraill.
- Deddf Llywodraeth Leol 1972 – yn enwedig adran 2, sy'n rhoi pwerau i awdurdodau wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn debygol o gyflawni un neu fwy o'r buddion canlynol: hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal, ac adran 113 sy'n galluogi un awdurdod lleol i gynnig ei staff i awdurdod iechyd neu Fwrdd Iechyd arall.

Mae Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1982 yn caniatáu i awdurdod lleol gael y pŵer i wneud unrhyw beth sy'n cael ei bennu i hwyluso, neu'n ffafriol neu'n ddamweiniol, i gyflawni ei swyddogaethau.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 28ain Fehefin 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2020/21 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dim yn berthnasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Nonn Hughes. Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>01286 679906<br>NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol. |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi:<br>1. Cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorth i Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>▪ hirdymor<br>▪ atal<br>▪ integreiddio<br>▪ cydweithio<br>▪ cynnwys |

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|

1. I ba raddau mae ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfrannu at lesiant trigolion Gwynedd a Môn a pha effaith mae'r gwaith wedi ei gael ar gymunedau?

2. Beth oedd rôl y Bwrdd wrth ymateb i bandemig Covid-19, a pha werth ychwanegol oedd i gyfraniad y Bwrdd yn ystod y cyfnod heriol sydd ohoni?

3. Pa mor effeithiol yw trefniadau monitro y Bwrdd o ran sicrhau bod amcanion yn cael eu gweithredu oddi mewn i'r amserlen?

4. Sut fyddwch yn ymgymryd â'r asesiad llesiant o ran cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal o gofio'r cyfyngiadau sydd yn eu lle yn sgil y pandemig, a sicrhau eich bod yn ymgysylltu ag unigolion o bob oedran a'r amrywiol grwpiau o fewn y gymdeithas?

5. Pa wersi a ddysgwyd fydd yn hanfodol wrth weithredu rhaglen waith a blaenoriaethau'r Bwrdd wrth symud ymlaen, ac ym mha ffyrdd y gall y Bwrdd arloesi mewn meysydd penodol?

## 5. – Cefndir / Cyd-destun

### 5.1 Cyflwyniad a chyd-destun

**5.1.1** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

**5.1.2** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Yn wir sefydlwyd Bwrdd ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i sicrhau cydweithio ymysg cyrff cyhoeddus i greu gwell dyfodol ar gyfer pobl Cymru. Y penderfyniad a wnaethpwyd yng ngogledd Orllewin Cymru oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

**5.1.3** Yn ystod 2017 rhannodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ein cymunedau yn 14 o ardaloedd llai er mwyn cynnal gwaith ymchwil manwl, a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Cyhoeddwyd y wybodaeth ar ffurf yr Asesiadau Llesiant. Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r asesiadau i lunio blaenoriaethau'r Bwrdd sydd wedi eu cadarnhau yn y Cynllun Llesiant (2018). Cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol:

- Yr iaith Gymraeg
- Cartrefi ar gyfer bobl leol;
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau;
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau;
- Iechyd a gofal oedolion a Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.

**5.1.4** Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r gwaith sy'n digwydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar draws Gwynedd a Môn, penderfynodd y Bwrdd nad oedd angen iddynt ymgymryd â rôl bendant yn y maes yma ar hyn o bryd ond y byddent yn derbyn cyflwyniadau'n rheolaidd ar y gwaith sy'n digwydd ac yn ystyried a oes rôl i'r Bwrdd gamu mewn i'r dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau eraill, sefydlodd y Bwrdd bedwar is-grŵp gweithredol, ac mae diweddariadau ar gynnydd yr is-grwpiau hynny wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

**5.1.5** Fel y nodwyd yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y Bwrdd bedwar aelod statudol sef yr Awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Yn ogystal mae yna gyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd. Mewn perthynas ag unrhyw newid diweddaraf i aelodaeth y Bwrdd mae Dafydd Gibbard wedi ei benodi'n Brif Weithredwr i Gyngor Gwynedd a bellach yn aelod statudol o'r Bwrdd.

**5.2 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

**5.2.1** Yn amgaeedig cyflwynir adroddiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y cyfnod 2020/21. Cyflwynwyd sawl adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y misoedd diwethaf i'r pwyllgor craffu a dyma'r adroddiad sy'n edrych yn ôl ar gyflawniadau yn ystod 2020/21.

**5.2.2** Ers mis Mawrth 2020 rydym wedi wynebu argyfwng Covid-19 a chyfnod heriol iawn. Defnyddiwyd yr adroddiad i hunan-fyfyrio ar waith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gymryd i ystyriaeth effaith yr argyfwng ar waith a chynnydd y Bwrdd. Strwythurir yr adroddiad i gyfeirio at gynnydd gwaith pedwar is-grŵp y Bwrdd.

**5.2.3** Mae arweinyddion is-grwpiau'r Bwrdd yn aelodau o'r Bwrdd, a'u cyfrifoldeb hwy fu cyflwyno adroddiadau cynnydd yn ystod y cyfnod 2021/21. Adroddwyd ganddynt fod cynnydd wedi arafu gan fod ymateb i'r argyfwng a rhoi sylw i'r gwaith o adfer ein cymunedau wedi cymryd blaenoriaeth. Er hynny mae'r is-grwpiau i gyd bellach yn ail afael yn eu gwaith.

**5.2.4** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grwpiau wedi gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol. Cytunodd y Bwrdd trwy'r Cynllun Llesiant eu bod am ychwanegu dwy egwyddor sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn Sef yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb. Mae pob un o'r is-grwpiau wedi sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy eu gwaith. Bydd yr is-grwpiau hefyd yn parhau i roi sylw i anghydraddoldeb ac anfantais trwy'r asesiadau effaith perthnasol.

**5.2.5** Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar adfer ein cymunedau yn y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnodd y Grŵp Rhanbarthol oedd yn gyfrifol am adfer o'r argyfwng i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried eu rôl yn y gwaith o adfer, gan ganolbwyntio ar wytnwch cymunedol. Felly gofynnwyd i bob aelod o'r Bwrdd gynnal dadansoddiad sefyllfaol er mwyn gwella ein dealltwriaeth am y materion hynny sy'n effeithio ein cymunedau fwyfwy ers yr argyfwng. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi 2020 i drafod y materion hynny ymhellach, gan roi ystyriaeth i sut allwn weithio efo'n gilydd i ymateb iddynt. Penderfynwyd fod nifer o sefydliadau'r Bwrdd yn cydweithio eisoes er mwyn ymateb iddynt ac mai rôl y Bwrdd felly fyddai cadw trosolwg o'r gwaith a cheisio sicrwydd ein bod fel cyrff cyhoeddus yn ymateb yn briodol.

**5.3 Trefniadau Craffu**

**5.3.1** Er mwyn cael atebolrwydd democrataidd i gynnydd gwaith y Bwrdd mae'r ddeddf wedi gosod gofyniad ar gynghorau i ddynodi Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar waith y Bwrdd. Felly mae gwaith Bwrdd Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei graffu gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar bwyntiau penodol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi tair rôl ar gyfer pwyllgorau craffu Awdurdodau Lleol sef:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- Bod yn Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y Bwrdd wrth weithredu'r Cynllun Llesiant.

**5.3.2** Golygir hyn fod y pwyllgorau craffu yn cael cyfle i graffu perfformiad ac effaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ystyriwyd yr opsiwn o sefydlu un panel craffu, i weithredu ar draws y ddwy sir i graffu gwaith y Bwrdd. Gwerthuswyd gwahanol opsiynau gan dimoedd craffu'r ddau Awdurdod a daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach am ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y ddwy Sir a pharhau efo'r trefniadau craffu bresennol. Bydd modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau Awdurdod eto maes o law.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1** Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd a'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

-

**8 – Atodiadau**

1. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2020/21

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn 2018

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2021

## Rhagair y Cadeirydd

Dyma gyflwyno ein trydydd adroddiad blynyddol. Yn yr adroddiad byddwn yn hunan-adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein Cynllun Llesiant (2018). Wrth gwrs, nid oes modd edrych yn ôl ar 2020/21 heb gyfeirio at argyfwng Covid-19 a'r effaith a gafodd ar ein gwasanaethau, ein busnesau a'n trigolion. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes e.e. materion iechyd meddwl, gwytnwch cymunedol, gor-dwristiaeth, ail gartrefi a bygythiadau i'r Gymraeg. Bydd yn bwysig ein bod fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod ein hamcanion llesiant yn derbyn sylw fel rhan allweddol o'r adferiad yn dilyn yr argyfwng.

## Cyflwyniad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ac mae'n rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant ac i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn cyfeirio at bum ffordd o weithio y mae disgwyl i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn ein helpu i gydweithio'n well ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n ein hwynebu. Y pum dull yw ystyried yr hirdymor, atal problemau rhag digwydd, gweithio'n integredig rhwng cyrff cyhoeddus, cydweithio er mwyn cyflawni'r amcanion a chynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, gan sicrhau fod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maen nhw'n ei wasanaethu.

Gwnaeth y Ddeddf hefyd sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cynnwys cynrychiolaeth o wahanol gyrff cyhoeddus. Rôl y byrddau yw i asesu cyflwr llesiant eu hardaloedd ac i bennu amcanion i sicrhau'r cyfraniad gorau posib tuag atynt. Mae'n ddyletswydd arnom fel Bwrdd i gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol yn nodi'n amcanion yn dilyn gwneud yr asesiadau llesiant.

Yn dilyn ei asesiadau llesiant yn ôl yn 2017, blaenoriaethwyd chwe maes gan y Bwrdd: Yr Iaith Gymraeg; Cartrefi i bobl leol; Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau; Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau; Iechyd a gofal oedolion a Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc. Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r gwaith sy'n digwydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar draws Gwynedd a Môn, penderfynodd y Bwrdd nad oedd angen iddynt ymgymryd â rôl pendant yn y maes yma ar hyn o bryd ond y byddent yn derbyn cyflwyniadau'n rheolaidd ar y gwaith sy'n digwydd ac yn ystyried a oes rôl i'r Bwrdd gamu mewn i'r dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau eraill, sefydlodd y Bwrdd bedwar is-grŵp gweithredol:

- Newid Hinsawdd
- Cartrefi ar gyfer pobl leol
- Iechyd a Gofal Integredig
- Yr Iaith Gymraeg

Mae'r adroddiad yma felly'n cyfeirio at waith yr is-grwpiau uchod. Yn bennaf, mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar adfer ein cymunedau yn y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnodd y Grŵp Rhanbarthol oedd yn gyfrifol am adfer o'r argyfwng i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried eu rôl yn y gwaith o adfer, gan ganolbwyntio ar wytnwch cymunedol. Felly gofynnwyd i bob aelod o'r Bwrdd gynnal dadansoddiad sefyllfaol er mwyn gwella ein dealltwriaeth am y materion hynny sy'n effeithio ein cymunedau fwyfwy ers yr argyfwng. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi 2021 i drafod y materion hynny ymhellach, gan roi ystyriaeth i sut allwn weithio efo'n gilydd i ymateb iddynt. Penderfynwyd fod nifer o

sefydliadau'r Bwrdd yn cydweithio eisoes er mwyn ymateb iddynt ac mai rôl y Bwrdd felly fyddai cadw trosolwg o'r gwaith a cheisio sicrwydd ein bod fel cyrff cyhoeddus yn ymateb yn briodol.

Bydd y Bwrdd yn parhau gyda'r gwaith o asesu cyflwr ein cymunedau fel rhan o'u hasesiad o lesiant 2021/22, ac fel rhan o hynny bydd cyfle i glywed gan bobl a chymunedau Ynys Môn a Gwynedd am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd yr asesiad yn gwella dealltwriaeth y Bwrdd am anghenion ein cymunedau, gan edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd i'r dyfodol.

## Adroddiad ar waith Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

## Newid Hinsawdd

**Pam fod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Sefydlwyd is-grŵp Newid Hinsawdd i annog cydweithio ymysg sefydliadau cyhoeddus ar liniaru effaith newid hinsawdd, ac yn benodol effaith llifogydd arfordirol a mewndirol ar ein cymunedau. Rydym wedi adnabod yr angen i addysgu a chydweithio gyda'n cymunedau er mwyn eu paratoi ar gyfer heriau presennol newid hinsawdd a'r rhai sy'n ein wynebu i'r dyfodol. Y nod wrth wneud hyn yw i geisio lliniaru'r effaith y mae unrhyw ddigwyddiadau o dywydd eithafol yn ei gael ar y cymunedau hynny.

**Diweddariad ar ein gwaith hyd yma**

Er bod argyfwng Covid-19 wedi mynd a'n sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae materion newid hinsawdd dal yn her fawr i ni. Ni allwn ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau ar ein pen ein hunain felly bydd ymdrech gydweithredol yn hanfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru waith i edrych ar ddull rhanbarthol o liniaru effaith Newid Hinsawdd. Roedd hyn ar ran pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Prif allbwn y gwaith yma oedd cytundeb i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru i ymateb i'r her, trwy sefydlu grŵp Newid Hinsawdd ar gyfer Gogledd Cymru. Prif nod y grŵp yma fydd i gyrraedd nodau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau Carbon. Bydd ffocws y gwaith gan Fwrdd Gwasanaethau Gwynedd ac Ynys Môn yn parhau i fod yn ymateb ar lefel lleol i'r heriau newid hinsawdd.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai, a gwahoddwyd nifer fawr o sefydliadau i gyfrannu a chytuno ar gynllun gweithredu tymor byr, canolig a hir. Daethpwyd i gasgliad mai'r camau nesaf fydd gweithio'n agos efo cymunedau i gynnal sgyrsiau angenrheidiol am yr hyn sy'n bwysig mewn perthynas â newid hinsawdd, a llifogydd yn benodol.

Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal sgyrsiau efo'n cymunedau fel rhan o'u Datganiadau Ardal. Bu'r sgyrsiau yn gyfle i ni feddwl beth sydd angen i ni wneud fel unigolion, cymunedau a sefydliadau i ymateb i Newid yn yr Hinsawdd. Bydd y canfyddiadau a'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r sgyrsiau yn cael ystyriaeth gan yr is-grŵp newid hinsawdd.

Yn ystod y cyfnod clo bu i nifer ohonom sylweddoli pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol. Roeddem yn defnyddio llai ar ein ceir ac fe welom effeithiau positif ar ansawdd ein haer a dŵr .

**Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy:

- ddeall anghenion cymunedau penodol sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer yr **hirdymor**
- **cydweithio** gyda nifer o gyrff cyhoeddus a'n cymunedau
- **cynnwys** ein rhanddeiliaid yn rhan annatod o waith yr is-grŵp

## Cartrefi ar gyfer pobl leol

**Pam fod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Yn wreiddiol gofynnodd y Bwrdd i'r grŵp sefydlu trefn cydweithio yn y sector dai a datblygu mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir. Wrth gwrs roedd gan nifer o bartneriaid y Bwrdd gynlluniau i ddatblygu tai fforddiadwy yn barod ond un mantais o gydweithio oedd i gyflawni arbedion maint – sef datblygu tai ar y cyd er mwyn lleihau'r costau datblygu ac i allu canolbwyntio ar ddatblygu tai arloesol. I gyflawni'r arbedion maint rhagwelwyd bod angen datblygu mwy nag un safle ar yr un pryd ac i gyd-gaffael y gwaith datblygu ynghlwm â hynny.

**Diweddariad ar ein gwaith hyd yma**

Am resymau y tu allan i reolaeth yr is-grŵp a gan nad oedd digon o safleoedd wedi eu cyflwyno gan bartneriaid y Bwrdd, ni fu'r weithred o gyd-gaffael y datblygiadau tai oedd dan ystyriaeth yn bosib.

Er hyn, sefydlwyd trefn gydweithio dda yn y sector dai a chanolbwyntiwyd ar y gwaith o gynllunio ar gyfer datblygu mwy o dai fforddiadwy yn y llefydd cywir, gyda phwyslais ar ddatblygu tai arloesol ag ôl troed carbon isel. Ni fu'n bosib datblygu mwy o dai fforddiadwy y tu hwnt i drefniadau presennol y sefydliadau. Fodd bynnag, bu adolygiad o'r holl safleoedd segur o fewn dalgylch Gwynedd a Môn, ac fe lwyddodd y Cymdeithasau Tai a Chyngor Môn i ddenu cymorth ariannol drwy'r drefn grant IHP4 ("Innovative Housing Programme Phase 4") sydd wedi sicrhau rhaglen i ddatblygu 139 o dai arloesol fforddiadwy ym Môn. Cyfrannodd gwaith yr is-grŵp at y broses trwy gydweithio ar y cais grant.

Mae sefydlu trefn cydweithio wedi bod yn fanteisiol iawn i'r partneriaid. Mae hyn wedi arwain at werth ychwanegol i waith sydd eisoes yn mynd rhagddo gan bartneriaid trwy rannu syniadau a gwybodaeth, ac arfer dda. Trwy gydweithio hefyd, llwyddwyd i werthuso gwahanol fodelau o dai arloesol a bydd yr ymarfer hwn o ddefnydd i nifer o'r partneriaid perthnasol wrth iddynt ddatblygu tai yn y dyfodol.

Yn ogystal, trwy gydweithio fe rannwyd ymarferion da, a gwnaethpwyd trefniant i rannu gwybodaeth rhwng swyddogion cyllid rhai o'r sefydliadau cyhoeddus. Rhannwyd eu methodoleg a rhagdybiaethau ariannol wrth ystyried hyfywedd ariannol cynlluniau datblygu'r wahanol bartneriaid. Bydd canlyniad hyn o ddefnydd i'r partneriaid perthnasol wrth iddynt ddatblygu tai yn y dyfodol.

Yn dilyn hyn felly, mae'r is-grŵp cartrefi wedi ystyried a chytuno fod eu gwaith yn dirwyn i ben gan nad oes gwerth pellach y gallent ei ychwanegu at waith sydd eisoes yn cael ei gyflawni yn y maes tai gan sefydliadau unigol. Bydd angen i'r Bwrdd felly ailystyried y flaenoriaeth hon a chytuno ar y ffordd ymlaen.

Yn ychwanegol i waith yr is-grŵp cartrefi mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn ystyried effaith argyfwng Covid-19 ar faterion eraill tai. Yn ystod gweithdy a gynhaliwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi 2020 trafodwyd dau fater yn benodol sydd wedi eu hamlygu fwyfwy yn sgil yr argyfwng, sef digartrefedd ac ail gartrefi. Yn amlwg mae gan bartneriaid y Bwrdd rôl i'w chwarae wrth ymdrin â'r materion yma ond am y tro, cytunwyd mai rôl y Bwrdd fyddai i gadw trosolwg o'r materion ac i dderbyn diweddariadau gan y partneriaid i'r dyfodol. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i deimlo sicrwydd fod y materion yma yn cael yr ymdriniaeth briodol gan y cyrff cyhoeddus.

**Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf, drwy:

- cyfrannu at gyflawni cynlluniau **hirdymor o** ddatblygu tai y sefydliadau sydd ynghlwm â'r prosiect
- annog **cydweithio** rhwng nifer fawr o sefydliadau cyhoeddus.

## Iechyd a Gofal

Er mwyn cyflawni yn erbyn y maes blaenoriaeth yma fe sefydlwyd is-grwpiau yn y meysydd plant, oedolion ac iechyd meddwl. Mae pob un o'r is-grwpiau yma'n adrodd i'r is-grwp iechyd a gofal. Pwrpas yr is-grŵp iechyd a gofal yw sefydlu trefn cydweithio yn y sector dan sylw a chadw trosolwg o'r gwaith o datblygu a thrawsnewid gwasanaethau, a'r ffordd yr ydym yn cefnogi unigolion yn ein cymunedau.

Profodd y gwaith yn y maes iechyd a gofal i fod yn allweddol bwysig wrth i ni ymdrin ag argyfwng Covid-19 ac wrth i ni gynnal y gwaith o adfer ein cymunedau wedyn. Datblygwyd ffyrdd newydd o weithio yn rhithiol sydd wedi bod o fantais mawr i'r timau aml-ddisgyblaethol. Trefnwyd cyfarfodydd wythnosol ymysg y partneriaid yn ystod cyfnod yr argyfwng hefyd er mwyn trafod y gwasanaethau oedd fwyaf dan bwysau a chynnig ymatebion ar y cyd. Dangoswyd parodrwydd i gydweithio ac addasu i amgylchiadau gwaith heriol iawn.

O ganlyniad i'r angen i'r gwasanaethau perthnasol flaenoriaethu eu hymateb i'r argyfwng, gohiriwyd gwaith yr is-grŵp iechyd a gofal am gyfnod, sef y gwaith o drawsnewid ein gwasanaethau. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi ail gychwyn a cheir isod ddiweddariad ar eu cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

**Iechyd Meddwl**

Mae'r ffrwd gwaith yma'n canolbwyntio ar ddatblygu system fwy integredig gyda ffocws ar waith ataliol. Mae pedair rhan i'r rhaglen:

- Cydweithio i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol ac atal argyfyngau iechyd meddwl rhag datblygu
- Darparu ymateb cyfannol, amserol i anghenion unigol gyda'r nod o gefnogi pobl i aros yn ddiogel yn y gymuned
- Datblygu'r gweithlu- Mae gwaith integreiddio iechyd gofal yn cyflwyno newidiadau i'n ffordd o weithio. Byddwn yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gweithredu ar y cyd.
- Datblygu tai mwy hygyrch a phriodol (a chymorth) i bobl sydd mewn perygl o argyfwng iechyd meddwl.

Yn fwy diweddar mae Ymarferwyr Iechyd Meddwl sydd â rolau i gefnogi unigolion yn gweithio mewn pedwar meddygfa teulu yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Golygir hyn fod unigolion yn gallu cael mynediad amserol i asesiad a chefnogaeth iechyd meddwl. Mae hyn yn gam cadarnhaol ymlaen ac yn ymateb i'n hamcan o gynllunio gwasanaethau ataliol.

**Oedolion**

Mae ffocws wedi'i roi ar osod sylfeini cryf ar gyfer y Timau Adnoddau Cymunedol (TAC), sef timau sydd wedi eu sefydlu o fewn 5 ardal ac sy'n cynnwys aelodau o staff yr awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd. Pwrpas y TAC yw tynnu gwasanaethau ynghyd i ddarparu'r gefnogaeth briodol i'n trigolion, i sicrhau un pwynt cyswllt i faterion iechyd a gofal unigolion, ac yn y pen draw i'w cefnogi i fyw'n annibynnol.

Mae nifer o dasgau wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn diwethaf ar osod y sylfeini ar gyfer y TAC, sydd i gyd yn cyfrannu at gyflwyno a gweithredu'r ffordd newydd yma o weithio. Rhoddwyd sylw i faterion llywodraethu gwybodaeth i sicrhau bod cytundebau rhannu data addas mewn lle; darparwyd hyfforddiant mewn arweinyddiaeth amlddisgyblaethol; datblygwyd system Sharepoint sy'n caniatáu i holl aelodau'r TAC rannu gwybodaeth berthnasol am eu gwaith a'r rhwystrau maent yn eu hwynebu ac mae'r holl ddatblygiadau yn cael eu cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth ohonynt.

Yn ogystal â’r gwaith o sefydlu trefniadau’r TAC mae’r is-grŵp iechyd a gofal hefyd wedi bod yn datblygu prosiectau ar lefel Awdurdod Lleol ac is-rhanbarthol megis:

- prosiect drws ffrynt SPOA -ystyried modelau o sefydlu llefydd canolog i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal
- prosiect rhyddhau o’r ysbyty – i sicrhau fod pobl yn gallu cael eu rhyddhau o’r ysbyty mor fuan a diogel â phosib, trwy gydweithio fel tîm i gefnogi’r unigolyn i adael yr ysbyty.
- model gofal cartref newydd i Wynedd – sy'n edrych ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal, gan canolbwyntio ar yr hyn sy’n bwysig i bobl sy’n derbyn y gwasanaethau hynny
- prosiect gweithio’n ddwyieithog - er mwyn cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal.

Yn ogystal, mae gwaith yn digwydd yn rhanbarthol i ymateb i’r Asesiad o Anghenion Poblogaeth. Bydd yr is-grŵp yn annog y cydweithio rhwng yr Awdurdodau Lleol a’r Bwrdd Iechyd ac yn cadw trosolwg o’r gwaith ar gyfer yr Asesiad hwnnw.

**Plant**

Yn wreiddiol y bwriad oedd i ddatblygu tîm aml disgyblaethol sy’n cwmpasu ystod eang o weithwyr proffesiynol a fyddai yn darparu gwasanaeth trawsnewidiol o ansawdd uchel i blant a theuluoedd ar gyrion gofal. Bu i’r gwaith gael ei ohirio oherwydd argyfwng Covid-19. Fodd bynnag, mae’r is-grŵp plant bellach wedi ymgynghori â rheolwyr tîm a staff y sefydliadau ac wedi llunio rhaglen hyfforddiant sy'n cynnwys amrywiaeth eang o hyfforddiant i staff. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio'n well gyda phlant a theuluoedd ar gyrion gofal, er mwyn darparu’r gofal a chefnogaeth briodol.

O safbwynt cymorth cynnar i blant a theuluoedd mewn cymunedau lleol, mae’r is-grŵp yn cydweithio gyda’r trydydd sector gyda'r nod o helpu teuluoedd i ailintegreiddio yn eu cymunedau ar ôl y cyfnod clo ac i ddarparu cymorth a chefnogaeth gynnar i'r teuluoedd hynny.

Mae trefniadau cadarn bellach wedi eu sefydlu gan yr is-grŵp iechyd a gofal er mwyn gyrru’r gwaith yn ei flaen wrth i ni ailgydio yn dilyn gorfod blaenoriaethu ein hymateb i argyfwng Covid-19. Mae’r is-grŵp hefyd wedi cael amser i ail edrych ar eu cylch gorchwyl, ac mae’r allbynnau disgwyliedig yn glir am y 6-12 mis nesaf sef:

- Gwneud cynnydd yn y ffrydiau gwaith plant, oedolion ac iechyd meddwl gan mai rôl yr is grŵp fydd cydweithio gydag arweinyddion yr is-grwpiau ar ymateb i'r rhwystrau sy’n eu hatal rhag gweithredu yn llawn.
- Parhau gyda’r trefniant i rannu gwybodaeth a data ymysg ein partneriaid er mwyn cynllunio gwasanaethau'n effeithiol.
- Cyflawni’r camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer yr is-grŵp gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Sut mae’r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o’r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy’r Ddeddf ac yn cyd-fynd â llawer o’r egwyddorion dylunio cenedlaethol sydd yn ‘Cymru Iachach’, Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Llywodraeth, trwy:

- roi ystyriaeth i dueddiadau’r **dyfodol** ac ymateb i newidiadau mewn demograffeg
- roi cynaliadwyedd ein system iechyd yn allbwn i’r is-grŵp er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol
- datblygu model **ataliol**

- **integreiddio** ein gwasanaethau iechyd a gofal er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau ein trigolion
- cydnabod ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles (gan gynnwys addysg, tai, llai o ddigartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd)
- sylweddoli'r buddiannau o **weithio mewn partneriaeth**

## Yr Iaith Gymraeg

**Pam fod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Mae'r Bwrdd yn deall pa mor bwysig yw'r Gymraeg i'n cymunedau ar draws Wynedd a Môn, a'i fod yn rhan o wead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae gallu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg yn bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.

Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi cyflwyno rhai heriau sylweddol i sefydliadau wrth geisio sicrhau parhad eu gwasanaethau. Mae'r amodau a'r cyfyngiadau o orfod gweithio'n rhithiol, yn ogystal â'r diffyg gallu i grwpiau cymunedol ddod at ei gilydd wedi ei gwneud hi'n anodd cynnal rhai gwasanaethau a chyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym ni fel cyrff cyhoeddus wedi ceisio sicrhau fod y dinesydd yn parhau i gysylltu ac ymwneud â'r cyrff cyhoeddus yn eu dewis iaith, ac yn parhau i fod yr un mor angerddol am gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Diweddariad ar y gwaith hyd yma**

Mae'n deg cydnabod fod gwaith yr is-grŵp hwn i bob pwrpas wedi'i oedi'n gyfan gwbl yn ystod 2020/21 o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19. Oherwydd bod aelodau o staff perthnasol wedi eu harallgyfeirio i waith gwahanol neu wedi gorfod newid eu blaenoriaethau, ni lwyddodd yr is-grŵp i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn gyrru'r rhaglen waith yn ei blaen.

O ganlyniad felly, nid oes cynnydd i adrodd arno ar gyfer 2020/21.  Fodd bynnag, nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2019-20 fod yr is-grŵp yn ystyried prosiect sy'n ymwneud ag ymddygiad ieithyddol mewn derbynfeydd ac mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth. Y bwriad gwreiddiol oedd i dreialu gwahanol fathau o ymyraethau er mwyn medru darparu arweiniad i staff derbynfeydd o wahanol sefydliadau ar sut mae annog defnydd o'r Gymraeg gyda'r nod o gynyddu hyder y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chyrff cyhoeddus.

Er bod y prosiect hwn wedi'i gymeradwyo gan aelodau'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020, ni fu'n bosib ei roi ar waith wrth i nifer o dderbynfeydd ar draws y cyrff cyhoeddus gau oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Fodd bynnag, ers yn fuan yn 2021 rydym wrthi'n adolygu'r cynnig prosiect gwreiddiol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni bellach. Mae hyn yn cynnwys ystyried y newid sydd wedi bod yn y ffordd y mae'r cyhoedd yn cyfathrebu gyda sefydliadau cyhoeddus ac unrhyw newid mewn rôl derbynfeydd.

Ein gobaith yw medru cychwyn ar y gwaith yn dilyn cymeradwyaeth buan gan y Bwrdd. Yr amcan yw normaleiddio'r Gymraeg wrth i bobl fynd o amgylch eu busnes cyhoeddus ac yn y pendraw, gallai hynny arwain at nid yn unig mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ei geisio a'i ddisgwyl gan gyrff o bob math. O bersbectif y trigolyn, mae mynegiant yn aml yn rhwyddach wrth ddefnyddio iaith gyntaf yn enwedig wrth drafod materion sensitif, megis materion yn ymwneud â llesiant unigolion, felly'r nod yw symleiddio'r broses o gael cymorth briodol.

Mae'r is-grŵp hefyd wrthi'n ystyried prosiectau posibl eraill i fynd i'r afael â'r ymrwymiad yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn er mwyn gallu rhoi rhaglen waith am y flwyddyn i ddod mewn lle.

**Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf, yn ogystal a'r ffyrdd ychwanegol sydd wedi eu cytuno gan y BGC sef y Gymraeg a Chydraddoldeb trwy:

- sicrhau fod yr **Iaith Gymraeg** yn rhan naturiol o waith Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

- **cydweithio** i godi ymwybyddiaeth, rhannu arferion da, datblygu sgiliau a hyder y gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u hannog i wneud defnydd o'r Gymraeg dro ar ôl tro
- **cynnwys** barn rhanddeiliaid perthnasol wrth iddynt gyflwyno prosiectau newydd.

## Edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod

Pob 5 mlynedd, ac fel un o ofynion statudol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi cychwyn ar y broses o adolygu'r Asesiad Llesiant .

Unwaith eto bydd yr Asesiad yn tynnu ynghyd ystod o wybodaeth am gymunedau Ynys Môn a Gwynedd. Golygir hyn y byddwn yn edrych ar waith ymchwil, casglu data ac ymgysylltu efo'n trigolion er mwyn canfod beth sy'n dda am ein cymunedau, a beth sydd ddim cystal. Bydd yn gyfle i ni ystyried heriau a chyfleoedd ein cymunedau, gan roi ystyriaeth i effaith argyfwng Covid-19 a Brexit arnynt.

Mae cydweithio gyda'n cymunedau ar yr asesiadau yn rhan allweddol er mwyn i ni ddeall beth yw eu gwir anghenion. Bydd y wybodaeth a rennir gan ein cymunedau yn cyfrannu at ein hasesiadau llesiant sydd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2022. Bydd yr asesiad yn llywio blaenoriaethau'r Bwrdd fel rhan o'r Cynllun Llesiant.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 28 Mehefin, 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Adroddiad Chwarter 4 Cynllun Twf |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Darparu adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ystod 2020/21 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Yr Arweinydd : Cynghorydd Llinos Medi Huws<br><br>Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Annwen Morgan, Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **Aelodau lleol:** | Perthnasol i'r holl Aelodau |

**1 – Argymhelliad/ion**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini dderbyn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer 2020-21 (**Atodiad 1**), ac Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 (**Atodiad 2**), gan nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig ag Amcan 1 yng Nghynllun y Cyngor 2017-2022: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir - Swyddi a Chyfleoedd gwaith - Cydweithio â Chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn denu buddsoddiad a sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyflogaeth leol yn mynd yn eu blaenau.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut mae heriau economaidd a chyflogaeth a wynebir yn dilyn Covid-19 yn debygol o effeithio ar y Bid Twf?
2. Pa heriau neu gyfleon ychwanegol a ragwelir wrth geisio gwireddu'r prosiectau yn sgîl y pandemig, a sut bwriedir mynd i'r afael â'r rhain?
3. Sut byddwch yn sicrhau buddion llawn lleol a rhanbarthol o'r prosiectau unigol o'r cyfnod adeiladu/ datblygu ymlaen?
4. A oes cydweithio effeithiol, gydag eglurdeb rhwng atebolrwydd a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau, i sicrhau bod y Bid Twf yn gweithio i ardaloedd lleol a rhanbarth Gogledd Cymru?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Pwrpas yr Adroddiadau

5.1 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ion-Mawrth) y Cynllun Twf **(Atodiad 2),** ac Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2020-21 **(Atodiad 1**).

5.2 Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer 2021-21

5.3 Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'n cynnwys y Cynllun Twf a gweithgareddau eraill a gefnogir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

**Effaith Pandemig Covid-19**

5.4 Bu 2020-21 yn flwyddyn heriol, gyda Covid-19 yn newid ein bywydau a'r ffordd rydym yn gweithio. Er gwaethaf yr heriau hyn, llofnodwyd cytundeb terfynol Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ystod seremoni rithiol ar 17 Rhagfyr, 2020.

5.5 Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol hirdymor sy'n atal twf economaidd. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod fod gofyn am gamau gweithredu yn y tymor byr er mwyn caniatáu adferiad economaidd. Nodir na all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun ymdrin â'r holl heriau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru, yn enwedig yng ngoleuni Covid-19. Fodd bynnag, bydd y

chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i'r economi yn hwb i'r sectorau adeiladau a chysylltiedig ar adeg tyngedfennol.

5.6 Bu'r tîm yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith adfer rhanbarthol dan arweiniad awdurdodau lleol. Bu i'r Bwrdd gomisiynu ar y cyd â Llywodraeth Cymru ymchwil ar effaith Covid-19 ar economi'r Gogledd. Cynhyrchwyd cynllun arfaethedig ar gyfer y cyfnod adfer yn sgil y gwaith ymchwil a gwblhawyd gan Hatch Regeneris yn amlinellu'r ymyraethau brys, ystyriaethau ar gyfer y Cynllun Twf ac ystyriaethau tymor hir, fydd yn gosod yr amgylchedd ar gyfer gwtnwch a thwf wedi Covid-19.

**Cynnydd ac uchafbwyntiau 2020/21**

5.7 Y Cynllun Twf Terfynol yw'r contract rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Fe'i sicrhawyd ar sail Achos Busnes y Portffolio a phum Achos Busnes Rhaglen a oedd yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer buddsoddiad o gyfanswm o £240m (£120m gan Lywodraeth y DU a £120m gan Lywodraeth Cymru).

5.8 Yn ogystal â chyflawni'r Cynllun Terfynol, cyflawnwyd nifer o gerrig milltir arwyddocaol eraill, gan gynnwys:

- Sicrhau £2.9 miliwn mewn cyllid ESF i ehangu'r Swyddfa Rheoli Portffolio;
- Recriwtio i'r strwythur staffio newydd gyda dim ond 2 swydd wag ar ôl ym mis Ebrill 2021 (18 aelod o staff bellach);
- Cwblhau Adolygiad Asesiad Portffolio ac Adolygiadau Porth y prosiect cyntaf;
- Cwblhau hyfforddiant *Better Business Case* ar gyfer aelodau'r tîm;
- Gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi.

5.9 Treuilwyd tri mis cyntaf 2021 yn canolbwyntio ar gyflawni a gweithio gydag arianwyr ein prosiectau i fwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau. Ym mis Chwefror, prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn oedd prosiect cyntaf y Cynllun Twf i ymgymryd ag adolygiad porth cyn i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

5.10 Ym mis Mawrth, 2021, wedi llofnodi'r Llythyr Dyfarnu Grant a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol fe dderbyniwyd rhandaliad cyntaf o £16 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd y cyllid yn galluogi dechrau cyflawni'r prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwylir ystyried a gwneud penderfyniad ar wedd gyntaf o achosion busnes y prosiectau.

**<u>Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Cynllun Twf Gogledd Cymru</u>**

5.11 Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd rhaglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

5.12 Gyda'r Cynllun Twf wedi'i lofnodi, mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar symud i'r cam cyflawni. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2021 gydag adolygiad gwaelodlin o'r holl brosiectau i ail-gadarnhau amserlenni ar gyfer datblygu a chyflawni achosion busnes. Unwaith y cwblhawyd yr ymarferiad hwn, roedd y ffocws ar fwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau.

5.13 Yn ystod Chwarter 4, mae nifer sylweddol o weithdai wedi'u cynnal, yn unol â'r canllawiau *Better Business Case*, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys nifer o randdeiliaid ac yn gyfle i'r arianwyr ein prosiectau i brofi, herio ac ail-gadarnhau cefnogaeth i'r prosiectau.

5.14 Mae Adolygiadau Porth yn rhan allweddol o'n proses sicrwydd a chymeradwyo, gan ddarparu pwynt gwirio annibynnol i benderfyniadau allweddol. Yn ystod Chwarter 4, gwelsom y ddau brosiect cyntaf yn ymgymryd â'r Adolygiadau Porth. Fe wnaeth prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn a'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, gwblhau eu hadolygiadau a bellach maent yn gweithio ar roi sylw i'r argymhellion a wnaed cyn cyflwyno'r achosion busnes diwygiedig i'w hystyried.

5.15 Wedi llofnodi'r Llythyr Dyfarnu Grant a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol, fe wnaethom dderbyn y rhandaliad cyntaf o £16 miliwn gan y Llywodraethau ym mis Mawrth 2021. Bydd y cyllid yn galluogi i ni ddechrau cyflawni'r prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwyliwn ystyried a gwneud penderfyniad ar ein gwedd gyntaf o achosion busnes y prosiectau.

5.16 Mae'r rhan fwyaf o raglenni a phrosiectau yn adrodd fel Ambr o ganlyniad i amserlenni datblygu achosion busnes diwygiedig sy'n arwain at oedi o gymharu â'r amserlen a amlinellir yn yr Achos Busnes Portffolio. Mae dau brosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd oherwydd risgiau a allai effeithio ar gwmpas y prosiectau.

## 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Bydd y Byrddau Rhaglen a'r Byrddau Prosiect yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer bob prosiect unigol. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni.

## 7 – Oblygiadau Ariannol

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffil gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw achosion busnes prosiectau wedi'u cymeradwyo felly nid oes gwariant i adrodd arno. Yn y dyfodol, bydd fersiynau o'r adroddiad hwn yn cynnwys adrodd ar wariant ariannol yn dilyn cymeradwyo achos busnes y prosiectau.

## 8 – Atodiadau

**Atodiad 1 –** Adroddiad Blynyddol y Swyddfa Rheoli Portffolio (2020/21)

**Atodiad 2**- Adroddiad Perfformiad Chwarter 4- Cynllun Twf Gogledd Cymru

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| Dim yn berthnasol |

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

## Swyddfa Rheoli Portffolio

# 2020-2021 Adroddiad Blynyddol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Y flwyddyn ddiwethaf | 4 |
| Y Cynllun Twf | 6 |
| Gweithio gyda'r Sector Preifat | 7 |
| Ymateb i Covid-19 | 8 |
| Datblygu'r Tîm | 9 |
| Digidol | 10 |
| Ynni Carbon Isel | 13 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | 16 |
| Tir ac Eiddo | 19 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 22 |
| Gwerth Ychwanegol | 25 |
| Llywodraethu | 25 |
| Prosiectau sydd ar y gweill | 27 |
| Y Flwyddyn Nesaf | 28 |
| Manylion Cyswllt | 28 |

# Rhagair

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol yn ddigynsail gyda'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a pandemig Covid-19 yn parhau i darfu ar les ein heconomi ac bwysicaf oll, ein pobl.

Fodd bynnag, mae'r gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru ar y gorwel a bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi bywiogrwydd i'n heconomi er mwyn sicrhau twf cynaliadwy a chynhwysol sydd ei angen dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae'r **Cynllun Twf** wedi'i ddatblygu drwy gydweithio agos ac ymrwymiad gan bartneriaid ar draws yr holl sectorau yn cynnwys Llywodraethau'r DU a Chymru, i gyflawni buddsoddiad a newid cadarnhaol a hirhoedlog a fydd yn galluogi twf economaidd a chyflogaeth yn yr hir-dymor.

Mae'r cynllun twf yn gyfle unigryw i fuddsoddi yn ein dyfodol ac mae'n alluogwr allweddol i adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a chynhwysol i'r Gogledd.

Byddwn yn **flaengar** gyda'n buddsoddiadau - yn adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd, meithrin arloesedd a bod yn gystadleuol yn y marchnadoedd yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym ganolbwyntiau ymchwil ac arloesedd sydd wedi'u hen sefydlu eisoes, sy'n ein helpu ni i wthio'r ffiniau o fewn gweithgynhyrchu gwerth uchel. Bydd buddsoddiad pellach yn gwella ein henw da ac yn galluogi twf yn y diwydiant pwysig hwn.

Ein nod yw gwneud y Gogledd yn lle mwy addas i fuddsoddi ynddo gan fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae methiant marchnad hir-dymor wedi bod yn rhwystr i ddenu buddsoddiad masnachol. Mae hyn yn datgloi'r potensial i greu cyfleoedd swyddi medrus iawn, i sicrhau gall ein pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol wedi hynny ffynnu a chyfrannu at yr economi lleol. Yn ogystal, byddwn yn mynd i'r afael â phrinder tir ac eiddo addas er mwyn hwyluso twf busnesau, a buddsoddi mewn safleoedd cyflogaeth fasnachol a thai i fodloni'r angen yn y rhanbarth.

Mae bod yn **gysylltiedig** fel rhanbarth yn un o'n cryfderau. Mae ein partneriaeth ar draws y chwe awdurdod lleol, y prifysgolion, y colegau a'r sector preifat wedi'i hen sefydlu ac yn cryfhau o hyd. Rydym yn gyrru newid sylweddol mewn cysylltedd drwy gyfarch yr ardaloedd hynny sydd angen cysylltiadau band eang cyflymach a mwy dibynadwy a gwneud y mwyaf o botensial mynediad i 5G ac arloesedd newydd. Rydym yn datblygu perthnasau ar draws ein ffiniau, oherwydd ein bod yn gwybod y gallwn fod yn gryfach drwy weithio gyda'n gilydd.

Mae hi'n bwysig i ni y byddwn yn parhau i adeiladu ar ein henw da fel rhanbarth cydlynus; meithrin a rhoi lifer ar ein partneriaethau i hyrwyddo twf yn yr economi sy'n gynaliadwy, yn gynhwysol ac y gellir ei ehangu. Mae ein buddsoddiad mewn prosiectau ynni carbon isel yn ein galluogi i gyfrannu'n uniongyrchol i'r argyfwng newid hinsawdd, gan helpu i wneud y Gogledd yn amgylchedd glanach, gwyrddach, ond hefyd gan leoli ein hunain fel un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU o fewn y sector ynni carbon isel. Heb anghofio ein heconomïau gwerthfawr o fewn amaeth a thwristiaeth, lle byddwn yn canolbwyntio ar alluogi ac annog arallgyfeirio i wella dyfodol hir-dymor y diwydiannau allweddol hyn, gan sicrhau bod ganddynt y cyfle i ddatblygu'n gynaliadwy a ffynnu.

Byddwn yn buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac yn adeiladu cyfoeth yn ein cymunedau. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein rhwymedigaeth i gyflawni'r Cynllun Twf mewn ffordd sy'n gwella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Drwy fuddsoddi yn awr, rydym yn adeiladu ein **gwytnwch** ar gyfer y dyfodol.

Mae'n fraint cael arwain y buddsoddiad pwysig hwn yn ein cartref a'n rhanbarth, Gogledd Cymru.



**Alwen Williams**
Cyfarwyddwr Portffolio



**Cynghorydd Dyfrig Siencyn**
Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru



**Cynghorydd Mark Pritchard**
Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru





# Y flwyddyn ddiwethaf

**Alwen Williams**
**Cyfarwyddwr Portffolio**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un eithriadol, gyda Covid-19 yn newid ac yn herio ein bywydau a'r ffordd rydym yn gweithio am byth, o bosib.

Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio ym mis Ionawr 2020, gyda'r aelodau'n cynnwys dau Reolwr Rhaglen, ein Rheolwr Gweithrediadau a minnau. Roedd gennym gylch gwaith heriol i sicrhau cyllid y Cynllun Twf ar gyfer y Gogledd erbyn mis Rhagfyr 2020. Yn sgil y pandemig, dim ond dau fis a hanner a gawsom gyda'n gilydd yn y swyddfa cyn i bopeth newid.

Ym mis Ebrill, roeddem yn addasu i'r normal newydd o redeg swyddfa rithiol, ymgysylltu gyda'n partneriaid i fapio'r broses o gytuno ar y cynllun twf terfynol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Hefyd, roeddem yn canolbwyntio ar ddysgu ynghylch methodoleg Better Business Case y Trysorlys.

Ym mis Mai, fe wnaethom sicrhau £2.9 miliwn o gyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ehangu'r tîm i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf. Mae tyfu a datblygu tîm newydd yn rhithiol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol ac yn werth chweil. Rydym yn dîm agos, deinamig a chydweithredol ac rwy'n hynod falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd, o ystyried bod y rhan fwyaf ohonom erioed wedi cyfarfod wyneb yn wyneb. Yn dilyn ein hymgyrch recriwtio ddiweddaraf ym mis Chwefror 2021, gyda 18 aelod bellach, rydym yn agos i gwblhau'r tîm, gyda dim ond ambell i swydd wag i'w llenwi.

O fis Mehefin ymlaen, rhannwyd ein ffocws fel tîm rhwng cefnogi'r gwaith adfer rhanbarthol dan arweiniad ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol a pharatoi'r achosion busnes a oedd eu hangen i sicrhau'r Cynllun Twf. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf, fe wnaethom gytuno ar ein dull gweithredu rheoli rhaglen a phrosiectau gan ddechrau rhoi'r strwythurau yn eu lle y byddem eu hangen i gyflawni'r cynllun twf. Fe wnaeth ein gwaith ar ddatblygu achosion busnes y rhaglenni a'r portffolio barhau drwy gyfres o weithdai, gyda chefnogaeth gan Joe Flanagan, cyd-awdur y ddogfen ganllaw ar gyfer methodoleg Better Business Case Trysorlys EM. Hefyd ym mis Mehefin, cynhaliwyd y cyntaf o nifer o gyfarfodydd rhithiol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Ym mis Awst, fe wnaethom gomisiynu Adolygiad Porth ar y Cynllun Twf. Darparodd yr adolygiad annibynnol hwn, a drefnwyd gan Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru, her ddefnyddiol ac argymhellion, yn ogystal â chadarnhau'r cynnydd yr oedd y tîm wedi'i wneud yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn.

Erbyn mis Medi, roeddem wedi cwblhau ein hachosion busnes a'r dogfennau llywodraethu cysylltiedig yn barod ar gyfer y broses gymeradwyo - yn fewnol a gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yn ystod mis Tachwedd, fe wnaeth ein partneriaid ar y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r dogfennau a oedd eu hangen ar gyfer cytundeb twf terfynol a'n trefniadau llywodraethu i gyflawni'r Cynllun Twf.

Llofnodwyd y Cytundeb Twf Terfynol yn ystod seremoni rithiol ar 17 Rhagfyr 2020. Y Cynllun Twf Terfynol yw'r cytundeb rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf ac fe'i sicrhawyd ar sail Achos Busnes y Portffolio a phum Achos Busnes Rhaglen er mwyn cadarnhau'r buddsoddiad o gyfanswm o £240m (£120m gan Lywodraeth y DU a £120m gan Llywodraeth Cymru).

Mae tri mis cyntaf 2021 wedi'u treulio yn canolbwyntio ar gyflawni a gweithio gydag arianwyr ein prosiectau i fwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau. Ym mis Chwefror, prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn, oedd prosiect cyntaf y Cynllun Twf i ymgymryd ag adolygiad porth cyn i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ym mis Mawrth 2021, wedi llofnodi'r Llythyr Dyfarnu Grant a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol fe wnaethom dderbyn y rhandaliad cyntaf o £16 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd y cyllid yn galluogi i ni ddechrau cyflawni'r prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwyliwn ystyried a gwneud penderfyniad ar ein gwedd gyntaf o achosion busnes y prosiectau.

O edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n falch o'r tîm a'r cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud. Roedd gallu sicrhau'r Cynllun Twf Terfynol o fewn ein hamserlen wreiddiol er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd gan Covid-19 yn ddi-os yn ganlyniad i ddycnwch a phenderfyniad pawb a oedd ynghlwm. Rwy'n edrych ymlaen at gyflawni'r cynllun twf, gyda'r tîm a'n partneriaid dros y flwyddyn nesaf.

# Trosolwg o'r 12 mis diwethaf

**ION 2020** – Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio

**MAW 2020** – Gyda clo cyntaf Covid-19 mewn lle symudodd y tîm i weithio o adref. Cwblhaodd y tîm hyfforddiant Better Business Cases ynghyd a chwblhau yr adolygiad gwaelodlin cyntaf

**EBR 2020** – Cwblhaodd aelodau eraill y tîm yr hyfforddiant Better Business Cases

**MAI 2020** – Derbyniwyd llythyr cynnig gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cadarnhau fod £2.9m o gyllid wedi ei ddiogelu er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf

**MEH 2020** – Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol cyntaf y Bwrdd Uchelgais

Mabwysiadwyd dull rheoli rhaglen a prosiect er mwyn cyflawni y Cynllun Twf, sefydlwyd 5 Bwrdd Rhaglen er mwyn cael trosolwg o weithrediad y rhaglenni

**GORFF 2020** – Datblygu Better Business Cases gyda gweithdai rhaglenni ynghyd a cyfres o weithdai gyda Joe Flanagan, cyd-awdur Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM er mwyn derbyn adborth a arweiniad ar y rhaglenni

Gwaith recriwtio yn cychwyn ar gyfer ehangu'r tîm

**AWST 2020** – Adolygiad Porth Portffolio Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal. Derbyniodd y Swyddfa Rheoli Portffolio adroddiad ac 11 argymhelliad er mwyn gweithredu

**MEDI 2020** – Datblygu Achosion Busnes Portffolio ac Rhaglenni ynghyd a dogfennau'r Cytundeb Terfynol

**HYD 2020** – Y Bwrdd Uchelgais yn cymeradwyo yr Achos Busnes Portffolio ynghyd a dogfennau'r Cytundeb Terfynol

**TACH 2020** – Cymeradwyaeth i ddogfennau'r Cytundeb Terfynol a Chytundeb Llywodraethu 2 gan bartneriaid y Bwrdd Uchelgais

**RHAG 2020** – Arwyddwyd y Cytundeb Twf Terfynol yn ystod seremoni rhithiol ar y 17 o Ragfyr, gan ddiogelu cyfanswm buddsoddiad o £240m ar gyfer y Cynllun Twf

**ION 2021** – Rhyddhaodd y Swyddfa Rheoli Portffolio 2 briff ar GwerthwchiGymru er mwyn cefnogi datblygiad prosiectau, Ynni Lleol Blaengar, Datgarboneiddio Trafnidiaeth ac Fferm Sero Net Llysfasi

Diweddarwyd yr Adolygiad Gwaelodlin er mwyn cadarnhau yr amserlen ar gyfer yr Achosion Busnes Amlinellol yn ystod y flwyddyn 2021

**CHWE 2021** – Daeth prosiect Morlais dan arweiniad Menter Môn y prosiect cyntaf i fynd drwy adolygiad porth. Dyma un o'r camau cyn i'r Bwrdd Uchelgais ystyried yr Achos Busnes Amlinellol yn hwyrach yn y flwyddyn

**MAW 2021** – Derbyniwyd ac arwyddwyd y Llythyr Cynnig Grant gan Lywodraeth Cymru

Derbyniwyd y taliad cyntaf o £16m

Aeth yr ail brosiect, sef Canolfan Peirianneg Menter ac Opteg dan arweiniad Prifysgol Glyndwr drwy adolygiad porth



# Y Cynllun Twf

## Nod

Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd.

Gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol.

Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Buddsoddiad

| Buddsoddiad Cynllun Twf: | Buddsoddiad Sector Breifat: | Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: | **Cyfanswm Buddsoddiad:** |
|---|---|---|---|
| £240m | £722.1m | £184.3m | **£1.1bn** |

## Amcanion Gwariant

Creu rhwng 3,400 – 4,200 net o swyddi ychwanegol

Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 – £2.5 biliwn mewn GVA

## Rhaglenni

- **Ynni Carbon Isel**
- **Digidol**
- **Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth**
- **Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel**
- **Tir ac Eiddo**

# Gweithio gyda'r Sector Preifat

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat ac ni fyddai ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn bosib heb gefnogaeth rhanddeiliaid allweddol o'r sector preifat.

**Dywed Askar Sheibani, Comtek Network Systems a Chadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes**

*"Mae gan Ogledd Cymru gynghrair unigryw a phwerus o arweinyddion sector preifat a chyhoeddus sydd wedi bod yn gweithio fel partneriaid unedig, drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cyflawni Busnes, i sicrhau bod y Cynllun Twf yn denu enillion sylweddol ar fuddsoddiadau.*

*Mae gan aelodau'r Bwrdd, sy'n entrepreneuriaid yn bennaf sydd â hanes blaenorol sefydledig o fewn eu sectorau a'u diwydiannau a gydnabyddir yn rhyngwladol, lais annibynnol. Mae ganddynt rwydweithiau busnes dylanwadol a helaeth yng Nghymru, y DU a'r tu hwnt ac yn bwysig iawn, maent yn angerddol iawn dros y Gogledd, sy'n gartref i'r rhan fwyaf ohonynt.*

*Tua'r Dwyrain, rydym yn ffodus i fod wedi'n lleoli yn agos ar ddwy ddinas fawr; Lerpwl a Manceinion, sy'n gartrefi i ddau faes awyr rhyngwladol i'n cysylltu ni â'r farchnad fyd-eang, tra bod Llundain ryw ddwy awr i ffwrdd ar y trên. Tua'r Gorllewin, mae porthladd Caergybi yn hwyluso ein masnach drwy gludo nwyddau ar y môr ac mae'n agor y llwybr at dwristiaeth rhyngwladol ac Iwerddon. Mae gan bob modfedd o'r Gogledd hanes ardderchog, diwylliant cyfoethog, cestyll a thraethau gwych, atyniadau twristiaeth unigryw, bywyd gwyllt rhyfeddol ac, heb os, y tirweddau naturiol gorau ar y Ddaear.*

*Mae rhaglenni'r Cynllun Twf yn canolbwyntio ar feysydd o'r economi lle mae gennym brofiad hirhoedlog ac arbenigedd cryf; megis Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni Adnewyddadwy a Thwristiaeth. Er enghraifft, mae gan y prosiect pŵer llanw ar Ynys Môn, Morlais, y potensial i wneud Gogledd Cymru yn un o arweinwyr y byd mewn ynni llanw. Ychydig iawn o lefydd yn y byd sy'n addas a gallai'r buddsoddiad olygu bod Gogledd Cymru yn un o'r tri chynhyrchwr pŵer llanw mwyaf yn y byd.*

*Hefyd, mae'r Cynllun Twf yn buddsoddi yn isadeiledd digidol y rhanbarth. Mae hyn yn hanfodol ac mae'n tanategu twf economaidd. Mae band eang ffibr cyflymder uchel dibynadwy a hygyrch a gallu 5G ledled y Gogledd yn hanfodol.*

*Drwy gydol hanes, mae'r Gogledd wedi dangos ei wytnwch i frwydro yn erbyn yr holl newidiadau economaid blaenorol ac wedi dod drwyddynt yn gryfach. Mae'r pandemig diweddar hwn wedi achosi daeargryn cymdeithasol ac economaidd dinistriol.*

*Gyda chynllun economaidd credadwy, buddsoddiad mewn sgiliau ac addysg a chydag arweinyddiaeth leol benderfynol sydd yn derbyn adnoddau digonol, credaf yn gryf fod gan y Gogledd gyfle gwych a'r potensial i ailsefydlu ei hun fel economi pwerus yng Nghymru, a fydd yn cael ei gefnogi'n fawr gan fuddsoddiad y Cynllun Twf dros y pymtheg mlynedd nesaf a'r tu hwnt."*

**Dyfyniad gan Jim Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Twristiaeth Gogledd Cymru a Chadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy ac Ashley Rogers, Cyfarwyddwr Masnachol, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy**

*"Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn becyn hollbwysig o fuddsoddiadau cyfalaf i'n rhanbarth a fydd yn hwb sylweddol i economi'r Gogledd ar adeg pan fo newidiadau mawr yn y farchnad megis Brexit a digwyddiadau byd-eang yn cynnwys pandemig Covid-19, yn parhau i effeithio ar ein Cymunedau a'n Heconomi. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, fel y corff ymbarél rhanbarthol ar gyfer y sector preifat yn y Gogledd, wedi gweithio'n galed iawn mewn partneriaeth â'r Bwrdd Uchelgais ers cychwyn datblygu'r Cynllun Twf, i sicrhau bod y buddsoddiadau a gynigir yn y Cynllun yn cael eu dosbarthu ledled y rhanbarth a'n sectorau er mwyn rhoi'r budd mwyaf i'n busnesau.*

*Mae gan Gynllun Twf sy'n cyflawni ar gefnogi busnesau a thwf cynhyrched ar gyfer ein busnesau bach a chanolig brodorol a'r busnesau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y Gogledd yn ei sectorau allweddol e.e. Gweithgynhyrchu, Twristiaeth a Lletygarwch, Amaeth ac Ynni, botensial i gael effaith gadarnhaol unwaith mewn oes arnom i gyd. Mae hi'n hanfodol, serch hynny, bod y prosiectau a'r rhaglenni arfaethedig nid yn unig yn gatalyddion twf ond hefyd bod iddynt y credo sylfaenol eu bod yn gwneud hynny gan gyfrannu at siwrne'r rhanbarth tuag at economi Cylchol a Dim Carbon Net. Edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu'n ystyrlon â'r Bwrdd Uchelgais ar y pecyn buddsoddi allweddol hwn."*



**Askar Sheibani**
Cadeirydd, Bwrdd Cyflawni Busnes



**Ashley Rogers**
Cyfarwyddwr Masnachol, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy



**Jim Jones**
Cadeirydd, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy

# Ymateb i Covid-19

Mae Covid-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio'n agos gyda'r chwe awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat i gydlynu'r ymateb rhanbarthol i adfer yr economi. Mae effeithiau hir-dymor Covid-19 ar economi'r rhanbarth yn dal i ddod i'r amlwg, ond mae'n glir bod rhai o'n heconomïau mwyaf sylweddol a sefydledig eisoes wedi cael eu heffeithio'n ddwys, er enghraifft, busnesau mewn twristiaeth, lletygarwch a hamdden a'r rheini sy'n dibynnu ar yr economi ymweld am fasnach.

Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hir-dymor sy'n atal twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Uchelgais yn gwbl ymwybodol y bydd angen amrediad o gamau gweithredu yn y tymor byr er mwyn hwyluso adferiad economaidd a dull gweithredu sy'n sicrhau bod yr ymyraethau adfer tymor byr i ganolig hyn yn cyd-fynd â'r nodau tymor hwy a'r mesurau sydd i'w cyflawni gan y Cynllun Twf.

Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni Covid-19. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i'r economi lleol yn hwb arwyddocaol i'r sectorau adeiladu a chysylltiedig a hynny ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben yn yr economi.

Ym mis Mawrth 2020, sefydlwyd grŵp ymateb tactegol rhanbarthol mewn ymateb i Covid-19. Ei gylch gwaith yw asesu'r effeithiau a ddaw yn sgil y pandemig ar fusnesau a chytuno ar gamau allweddol sydd eu hangen i roi sylw i'r rhain. Bu'r Grŵp yn cyfarfod yn wythnosol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, WLGA, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy. O'r herwydd, bu'n bosib cydlynu a chrynhoi sesiynau briffio rheolaidd a gafodd eu rhannu'n uniongyrchol gyda Gweinidogion y Llywodraeth i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar becynnau adfer ariannol ar gyfer y gymuned fusnes. Daeth themâu allweddol i'r amlwg, yn cynnwys cefnogaeth i fusnesau, yr economi ymweld, canol trefi ac adfywio, cadwyni cyflenwi, pobl, sgiliau a chyflogaeth a chaffael cyhoeddus.

Ddechrau mis Mai 2020, rhyddhawyd erthygl yn y wasg ar y cyd i amlygu'r cydweithio sy'n digwydd ledled y Gogledd a rhwng y Bwrdd Uchelgais, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a'r DWP i helpu i greu'r cysylltiadau rhwng ceiswyr swyddi a'r swyddi gwag sydd ar gael yn y rhanbarth.

Hefyd yn ystod mis Mai, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gynnal gweminar i fusnesau a wnaeth ddenu dros gant a hanner o gyfranogwyr gan roi cyfle i fusnesau sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig ofyn eu cwestiynau yn uniongyrchol i Weinidogion y Llywodraethau.

Yn gynnar yn haf 2020, sefydlwyd Grŵp Adfer Economaidd Rhanbarthol i weithio ar y cyd ar adfer yr economi ar ran y rhanbarth. Fe wnaeth y grŵp gomisiynu arolwg effaith busnes, a gynhaliwyd dros yr haf, y gwnaeth dros 1,800 o fusnesau ymateb iddo . Fe wnaeth y data ddarparu mewnwelediad gwerthfawr ynghylch effaith uniongyrchol Covid-19 mewn gwahanol ddiwydiannau a sectorau gan alluogi dadansoddiad yn ôl awdurdod lleol.

Ar y cyd, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar effaith Covid-19 ar economi'r Gogledd hefyd. Roedd y gwaith ymchwil hwn, a gwblhawyd gan Hatch Regeneris, yn cynnwys cynllun arfaethedig ar gyfer adfer gan edrych ar ymyraethau brys, ystyriaethau ar gyfer y Cynllun Twf ac ystyriaethau tymor hir, ac mae'r cyfan wedi'u dylunio i feithrin yr amgylchedd ar gyfer gwytnwch a thwf wedi Covid-19.

Yn ogystal, ac o ystyried yr effaith ar y diwydiant twristiaeth, lletygarwch a hamdden, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gomisiynu darn o waith annibynnol dan arweiniad yr Athro Nigel Morgan a'r Athro Annette Pritchard i edrych ar yr effaith yr oedd Covid-19 yn ei chael ar y diwydiant. Mae'r papur, a gyflwynwyd i'r Bwrdd, yn amlinellu'r sefyllfa a'r ystyriaethau sydd eu hangen i ail-osod, ail-gynnau ac ail-ddychmygu economi ymweld cynaliadwy a gwydn ar gyfer y Gogledd.

Mae'r mewnwelediadau sydd wedi'u casglu drwy gydol y flwyddyn wedi dilysu'r themâu blaenoriaeth allweddol sy'n dod i'r amlwg. Yn ystod ail ran y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar ddefnyddio strwythurau a fforymau rhanbarthol presennol i ddatblygu cynlluniau adfer mewn ymateb i bob un o'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi datblygu cynllun adfer arfaethedig sy'n canolbwyntio ar bobl, sgiliau a chyflogaeth ac mae'r Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol yn cyd-fynd â'r thema economi ymweld. Mae gwaith ar y gweill i gytuno ar gynllun adfer rhanbarthol cynhwysfawr i roi sylw i bob un o'r themâu hyn a chyda'r nod o ail-adeiladu economi cynaliadwy a gwydn i'r Gogledd.

# Tîm y Swyddfa Portffolio


Sefydlwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio, dan arweiniad Alwen Williams, y Cyfarwyddwr Portffolio, ym mis Ionawr 2020 gyda Hedd Vaughan-Evans fel Rheolwr Gweithrediadau; Henry Aron fel Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel a Stuart Whitfield fel Rheolwr Rhaglen Ddigidol. Yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y tîm yn eu swyddi, fe wnaethant sefydlu'r Swyddfa Portffolio a'r prosesau gwaith cysylltiedig yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno. Ers mis Mawrth 2020, mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n rhithiol o gartref. Ym mis Ebrill, ymunodd David Mathews â'r tîm, fel Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo, ac wedi hynny daeth Nia Medi Williams atom fel Uwch Swyddog Gweithrediadau ym mis Awst, wedi iddi fod yn cefnogi'r tîm yn flaenorol o Gyngor Gwynedd.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus ym mis Hydref, ymunodd tri aelod newydd â'r tîm, sef Robyn Lovelock fel Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf, yn gyfrifol am arwain ar y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth a'r Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel. Ymunodd Erin Thomas fel y Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac Angharad Evans fel Swyddog Cefnogi Rhaglen. Yn fuan wedyn, ymunodd Elgan Roberts fel Rheolwr Prosiect Ynni.

Ym mis Ionawr 2021, ymunodd Kirrie Moore â'r tîm fel Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol, ac wedi hynny ym mis Mawrth 2021 daeth Anita Davies atom fel Rheolwr Prosiect Cyllid Ewropeaidd. Yn ystod mis Mawrth, ymunodd Lynn Slaven â'r tîm yn ffurfiol fel Cynorthwy-ydd Personol i Alwen, wedi iddi ddarparu'r gefnogaeth hon yn flaenorol o Gyngor Gwynedd.

Bydd chwe aelod newydd yn ymuno â'r tîm yn ystod mis Ebrill a Mai 2021, ac mae dwy swydd wag yn dal i'w llenwi.

## Swyddfa Rheoli Portffolio





# Digidol

## Amcan Strategol

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru fodloni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Mae'n chwarae rôl hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill i gyflawni'r budd mwyaf posib.

## Buddsoddiad

| Buddsoddiad Cynllun Twf: | Buddsoddiad Sector Breifat: | Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: | Cyfanswm Buddsoddiad: |
|---|---|---|---|
| £37m | £1.6m | £3.1m | **£41.7m** |

## Amcanion Gwariant

**Creu Swyddi**
Creu rhwng 315 a 380 o swyddi.

**Marchnad cysylltedd cadarn a chystadleuol mewn safleoedd Allweddol**
Cyflwyno marchnad cysylltedd gadarn a chystadleuol mewn 28 safle strategol i gyd-fynd â rhaglen Llywodraeth y DU o ddarpariaeth galluedd gigabit erbyn 2025, neu cyn hynny.

**Gwasanaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidaeth**
Darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth (A55, A483, A5), gyda defnydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU o ddarpariaeth 5G erbyn 2027.

**Arlosedd seilwaith ddigidol**
Arloesi a masnacholi technoleg isadeiledd digidol newydd i gyflawni a chydgrynhoi rôl tymor hir mewn diwydiant sy'n bwysig yn strategol.

**Buddsoddiad**
Buddsoddiad o rhwng £37m a £46m.

**GVA**
Creu GVA ychwanegol net o rhwng £130 a £158m.

**Cysylltedd digidol cyflym iawn ym mhob man**
Sicrhau bod gan yr holl eiddo preswyl yn y rhanbarth gysylltedd band eang cyflym iawn erbyn 2023 gyda galledd uwchraddio gigabit wedi'i gynnwys gyhyd ag sy'n bosib.

# Y Prosiectau

## Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)

Bydd y prosiect yn dwyn ynghyd ymchwilwyr o Brifysgol Bangor i weithio law yn llaw â chwmnïau rhyngwladol proffil uchel a busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru gan alluogi iddynt weithio gyda'i gilydd i ymchwilio datrysiadau rhwygol ar gyfer 5G. Bydd y prosiect yn caniatáu i'r Ganolfan DSP ehangu ei phresenoldeb a'i chylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Genedlaethol (NSP) a galluogi graddio asedau allweddol gan gynnwys gwely prawf 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. Disgwylir i'r prosiect greu cyfanswm o 160 o swyddi.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £7.3m | Cynllun Twf £3m*

## Coridor Cysylltiedig

Mae'r prosiect hwn yn ceisio ymateb i alw'r diwydiant a gyrwyr technoleg drwy gefnogi gweithrediad mwy effeithlon y cadwyni cyflenwi, a gweithrediadau trafnidiaeth mawr (megis porthladdoedd). Bydd cyfanswm o 156km o goridor ffyrdd a rheilffyrdd yn cael ei gysylltu â Rhwydweithiau Mynediad Di-wifr 5G/Pŵer Isel, ar hyd coridor yr A55 a llwybr rheilffordd prif linell gyfagos. Amcangyfrifir y bydd hyd 1.57 miliwn o siwrnai rheilffordd a 1.3 miliwn o siwrnai ar y ffordd yn elwa o well cysylltedd 5G unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £2.2m | Cynllun Twf £2.2m*

## Campysau Cysylltiedig

Trwy 'campysau' rydym yn golygu safleoedd allweddol o weithgarwch economaidd. Bydd y prosiect yn cyflymu'r gwaith o ddatblygu seilwaith ar gyfer 19 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. Amcangyfrifir y bydd tua 2,600 o adeiladau busnes yn gallu cael gafael ar wasanaethau Wi-Fi lled band uchel a phŵer isel ac felly gwell cysylltedd unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £21m | Cynllun Twf £21m*

## Ffibr Llawn mewn safleoedd allweddol

Ceisia'r prosiect hwn gyflawni cysylltedd ffibr llawn (addas ar gyfer gigabit) i 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y rhanbarth.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £7.2m | Cynllun Twf £6.8m*

## Cysylltu'r % olaf

Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws eiddo'r Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. Mae diffyg band eang dibynadwy a sylfaenol mewn rhai achosion (mae Ofcom yn diffinio fel lawrlwytho 10Mbps) yn her sefydledig a chynyddol sy'n wynebu busnesau a chymunedau gwledig. Mae 'rhaniad digidol' a gydnabyddir yn eang yn effeithio ar fynediad preswylwyr at wasanaethau ar-lein ac yn atal busnesau bach a chanolig rhag datblygu a chynnal masnach. Mae'r duedd gynyddol o weithio gartref hefyd wedi'i chyfyngu gan gysylltedd gwael. Bydd band eang cyflym iawn ar gael i hyd at 10,100 o safleoedd preswyl a 4,300 o adeiladau busnes unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £4m | Cynllun Twf £4m*



# Y flwyddyn ddiwethaf

**Stuart Whitfield**
**Rheolwr Rhaglen Ddigidol**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y Rhaglen Ddigidol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda datblygu achos busnes y rhaglen a sefydlu strwythurau llywodraethu'r rhaglen i gefnogi'r gwaith o gyflawni.

Mae'r Rhaglen Ddigidol yn unigryw o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio gan fod y rhaglen yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni prosiect nad yw'n rhan o'r Cynllun Twf.  Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn cyflawni Prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol Gogledd Cymru a ariennir drwy DCMS y DU ac erbyn diwedd Mawrth 2021, disgwylir i hwn fod wedi cyflawni tua 100 i uwchraddiadau band llydan ffibr llawn newydd i ystod o safleoedd sector cyhoeddus ledled y rhanbarth, gan ddod â chysylltedd galluedd gigabit i gefnogi cyflawni gwasanaethau am y tro cyntaf. Disgwylir i 250 o gysylltiadau pellach gael eu gwneud cyn diwedd 2021.

Mae buddion yn dechrau cael eu gwireddu yn barod, yn gysylltiedig â gwell cynhyrchedd ac effeithlonrwydd cyflawni gwasanaethau a chefnogi ffyrdd newydd o weithio, yn benodol gyda meddygfeydd teulu sydd wedi'u heffeithio gan gyfyngiadau Covid-19.

Ym mis Tachwedd, dewisodd y bwrdd rhaglen y prosiectau Canolfan Prosesu Signal Digidol, Ychydig % Olaf a Choridorau Cysylltiedig fel blaenoriaethau i ddatblygu achosion busnes yn ystod 2021. Mae pob un o'r tri phrosiect bellach wedi sefydlu byrddau prosiect ac mae uwch berchnogion cyfrifol yn eu lle i gefnogi'r gwaith o gyflawni.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio gan fwyaf ar ddatblygu'r partneriaethau angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen, gyda chyfanswm o 13 sefydliad bellach ynghlwm naill ai ar lefel bwrdd prosiect neu raglen; Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Network Rail, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Prifysgol Bangor a Menter Môn. Mae ymgysylltu â'r farchnad hefyd wedi digwydd gyda'r sector preifat yn ystod 2020-21 gyda diddordeb ymhlith partneriaid cyflawni posib yn tyfu wrth i achosion busnes y rhaglen yn cael eu ffurfio.

Mae'r rhaglen yn ystyried gweithgareddau pellach i wella cysylltedd digidol yn y rhanbarth drwy wella'r amodau i weithredwyr rhwydwaith fuddsoddi.  Mae'r meysydd yr ydym yn ymchwilio iddynt yn cynnwys datblygu 'cytundebau mynediad' cyffredin i'w mabwysiadu gan y sector cyhoeddus ehangach i hwyluso lletya isadeiledd digidol mewn eiddo sector cyhoeddus. Mae cofrestr gyffredin o'r asedau hyn hefyd yn cael ei hystyried i symleiddio'r broses o adnabod safleoedd gan weithredwyr rhwydwaith, yn hytrach na gorfod ymgynghori â ffynonellau niferus. Bydd y ddau ddull yn cael eu hysbysu gan enghreifftiau o ledled y DU ac ymagwedd Llywodraeth y DU i'r hyn a elwir yn 'barrier busting'.

Gyda Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol yn ei swydd ers mis Ionawr 2021 a Swyddog Prosiect Digidol newydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Mai 2021, mae'r rhaglen mewn sefyllfa dda i gyflawni.



# Rhaglen Ynni Carbon Isel

## Amcan Strategol

Datgloi buddion economiadd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

## Buddsoddiad

| Buddsoddiad Cynllun Twf: | Buddsoddiad Sector Breifat: | Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: | Cyfanswm Buddsoddiad: |
|---|---|---|---|
| £86.4m | £441.7m | £140.4m | **£668.5m** |

## Amcanion Gwariant

**Creu swyddi**
Creu rhwng 800 a 980 o swyddi.

**Cynhyrchu ynni carbon isel**
Galluogi'r defnydd o 314MW o gapasiti cynhyrchu ynni carbon isel wedi'u gosod o'r newydd.

**Arbedion carbon**
Galluogi arbedion carbon o 2,723 tunnell o $CO_2e$ o leiaf.

**Buddsoddiad**
Cyfanswm buddsoddiad o rhwng £602-£735m.

**GVA**
Creu GVA ychwanegol net o £433m-£530m.

# Y Prosiectau

## Morlais

Buddsoddi yn y seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, a pharatoi'r safle ar gyfer datblygwyr y sector preifat a fydd yn prydlesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio eu technolegau ynni'r llanw. Byddai hyn yn gosod y parth fel y safle cyntaf wedi'i gydsynio, ei ehangu a thechnoleg-agnostig yn y byd gyda hyd at 240 MW o botensial cynhyrchu pŵer.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £36m | Cynllun Twf £9m***

## Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel

Buddsoddi mewn datblygu cyfleusterau ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gan wella galluoedd Gogledd Cymru a'r DU ar gyfer arloesi mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn cyflenwi ynni carbon isel yng Ngogledd Cymru.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £97.7m | Cynllun Twf £21m***

## Datgarboneiddio Trafnidiaeth

Cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel i ddatgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £28.6m | Cynllun Twf £11.4m***

## Ynni Lleol Blaengar

Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau galluogi ac arddangoswyr arloesol i oresgyn methiannau'r farchnad ac yn datgloi buddsoddiadau yn y sector breifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £106.2m | Cynllun Twf £25m***

## Gorsaf Bŵer Trawsfynydd

Mae safle Trawsfynydd mewn sefyllfa unigryw ar gyfer defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR) yn sgil ei statws fel ased ym mherchnogaeth gyhoeddus, ei weithlu hynod fedrus, a'r gymuned gefnogol. Ar y cyd gyda'r sector gyhoeddus a phreifat bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at seilwaith galluogi ar gyfer y datblygiad hwn, gan helpu i ddiogelu swyddi a gosod y Gogledd mewn safle blaenllaw o ran arloesedd ac ymchwil a datblygu mewn technoleg sydd â photensial arwyddocaol i'w defnyddio ledled y DU.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £400m | Cynllun Twf £20m***



# Y flwyddyn ddiwethaf

**Henry Aron**
**Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Rhaglen Ynni Carbon Isel wedi aeddfedu yn rhaglen gydlynol a'i nod yw datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol yn y Gogledd.

Yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn, roeddem yn canolbwyntio ar ddatblygu achos busnes y rhaglen, sefydlu strwythurau cyflawni'r rhaglen, hyfforddi a recriwtio. Gyda'r strwythurau hyn yn eu lle, mae'r ffocws dros y chwe mis diwethaf wedi bod ar gynnydd gydag achosion busnes y prosiectau. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi Menter Môn i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Morlais, prosiect ynni morol trawsffurfiol ym Môn. Cynllunnir i brosiect Morlais fod yr achos busnes prosiect cyntaf i gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais yn 2021.

Mae'r Rhaglen Ynni Carbon Isel yn cynrychioli cyfle i sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu i hyrwyddo'r Cynllun Twf a'r cyfleoedd o amgylch y sector ynni carbon isel yn y Gogledd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno yn Nigwyddiad Ynni Gogledd Cymru EGNI 2021 (Ionawr 2021) a chymryd rhan yn nigwyddiad Wythnos Cymru Llundain ym mis Mawrth 2021.

Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus yn denu cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau. Sicrhawyd £25k gan Raglen Byw yn Glyfar Llywodraeth Cymru i gyflawni astudiaeth dichonoldeb i systemau ynni amlffynhonnell ar Benrhyn Llŷn a £140k o gyllid grant wedi'i sicrhau i fwrw ymlaen â'r achos busnes ar gyfer y Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth.

Un garreg filltir arall dros y flwyddyn ddiwethaf oedd gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu'r Strategaeth Ynni Ranbarthol ar gyfer y Gogledd, a dderbyniodd gadarnhad y Bwrdd Uchelgais ym mis Mawrth 2021. Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw amlinellu llwybr posib ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni, tra'n sicrhau bod y rhanbarth yn manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd wrth drawsnewid i economi carbon isel.

Mae dau reolwr prosiect newydd wedi'u penodi, gydag Elgan Roberts yn ymuno â'r tîm ym mis Tachwedd 2020 i arwain y prosiect Ynni Lleol Blaengar a bydd Graham Williams yn ymuno â'r tîm ym mis Ebrill i arwain ar y prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth. Dros y flwyddyn nesaf, disgwyliwn weld cynnydd sylweddol wrth i'r rhaglen symud i'r cam cyflawni.



# Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

## Amcan Strategol

Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.

## Buddsoddiad

| Buddsoddiad Cynllun Twf: | Buddsoddiad Sector Breifat: | Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: | Cyfanswm Buddsoddiad: |
|---|---|---|---|
| £24.5m | £4.4m | £12.4m | **£41.3m** |

## Amcanion Gwariant

**Creu swyddi**

Creu rhwng 310 a 380 o swyddi.

**Arloesedd a chynhyrchedd**

Darparu hyd at 4,000 a 6,000m² o ofod llawr egino, ymchwil a datblygu hyfforddiant i annog arloesedd, hyrwyddo uwch-sgilio a chefnogi twf busnes yn y sector.

**Datgarboneiddio a modelau busnes cynaliadwy**

Addysgu busnesau ar fuddion datgarboneiddio, arallgyfeirio a modelau busnes cynaliadwy. 300-400 o fusnesau yn arallgyfeirio o'r gweithrediad craidd traddodiadol i fabwysiadu ymarferion newydd o fewn pum mlynedd gyntaf y rhaglen.

**Buddsoddiad**

Buddsoddiad o rhwng £37m a £45m.

**GVA**

Creu GVA ychwanegol net o £230m a £281m.

# Y Prosiectau

## Fferm Sero Net Llysfasi

Nod Fferm Sero Net Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £15.4m | Cynllun Twf £10m***

## Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon

Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig unigryw arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £13m | Cynllun Twf £10m***

## Rhwydwaith TALENT Twristiaeth

Mae'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn amlinellu cynlluniau uchelgeisiol i ddiogelu darpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig a'r un sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth. Wrth gwrs, mae'r sector o dan bwysau enfawr gan Covid-19 ar hyn o bryd felly mae'n rhaid monitro hyn wrth i ni symud ymlaen. Nod y rhwydwaith talent yw ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £12.9m | Cynllun Twf £4.5m***



# Y flwyddyn ddiwethaf

**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf**

Gan nad oedd Rheolwr Rhaglen yn ei le ar ddechrau'r flwyddyn, roedd ymdrech gydweithredol sylweddol ar draws y bartneriaeth i ddatblygu'r Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth ac i adeiladu naratif clir a chydlynol ar gyfer y rhaglen. Fe wnaeth yr ymagwedd gydweithredol hon alluogi i achos busnes y rhaglen gael ei ddatblygu gyda nod clir i adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn yn y rhanbarth drwy ganolbwyntio ar amaeth, bwyd a diod a thwristiaeth.

Ym mis Hydref, ymunodd Robyn Lovelock â'r tîm fel Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf gyda chyfrifoldeb dros y rhaglen hon, gan ddarparu capasiti oedd wir ei angen i yrru'r rhaglen ymlaen.

Troswyd y grŵp llywio anffurfiol a oedd yn cefnogi'r rhaglen yn fwrdd rhaglen gyda ffocws ar ddatblygu prosiectau yn unol â chanllawiau Better Business Case, gwireddu buddion a thrafodaeth ynghylch sut all y Cynllun Twf gefnogi trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd a chefnogi busnes orau i wireddu'r buddion a oedd wedi'u cynllunio.

Ym mis Rhagfyr, fe wnaeth y rhaglen sicrhau £100k gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID). Mae pedwar busnes wedi bod yn gweithio gyda Choleg Cambria fel arianwyr y prosiect ar gyfer prosiect fferm Sero Net Llysfasi a'r Bwrdd Uchelgais i ymchwilio dichonoldeb arloesol all helpu ffermydd Gogledd Cymru i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd y gwaith hwn yn helpu i siapio'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes ar gyfer y fferm Sero Net yn ystod 2021.

Mae prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon ar drywydd i fod yr achos busnes cyntaf o fewn y rhaglen i gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais. Mae'r holl weithdai datblygu achos busnes bellach wedi'u cwblhau a bydd y prosiect yn ymgymryd ag adolygiad sicrwydd allanol (Adolygiad Porth) ym mis Ebrill 2021.

Cafodd prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth ei atal yn gynnar yn 2020 o ganlyniad i Covid-19 a'r effaith benodol ar y sector twristiaeth yn y Gogledd er mwyn caniatáu i ni ystyried yr effeithiau ar y prosiect. Adolygwyd y prosiect yn gynnar yn 2021 a bellach mae'n parhau gyda ffocws uniongyrchol ar yr elfen Canolbwynt cychwynnol i'w gyflawni gan Grŵp Llandrillo Menai drwy ffynonellau ariannol eraill, gyda ymchwil pellach o'r elfennau i'w nodi eto ddiwedd 2021, yn amodol ar barhau i reoli cynnydd Covid-19.

Mae'r rhaglen a'r tri phrosiect mewn lle da i gyflawni a gwneud cyfraniad sylweddol i'r sectorau bwyd-amaeth a thwristiaeth yn y Gogledd dros y blynyddoedd nesaf.



# Tir ac Eiddo

## Amcan Strategol

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.

## Buddsoddiad

| Buddsoddiad Cynllun Twf: | Buddsoddiad Sector Breifat: | Buddsoddiad Sector Gyhoeddus: | Cyfanswm Buddsoddiad: |
|---|---|---|---|
| £79.1m | £274.4m | £1.9m | **£355.4m** |

## Amcanion Gwariant

**Creu swyddi**
Creu rhwng 1,870 a 2,280 o swyddi.

**Safleoedd ac eiddo cyflogaeth**
Cyflawni 30ha o dir ac 20,000m² o eiddo cyflogaeth rhwng 2021 a 2026.

**Safleoedd preswyl**
Cyflawni dros 1,000 o leiniau datblygu preswyl rhwng 2021 a 2026.

**Buddsoddiad**
Buddsoddiad o rhwng £320m a £390m.

**GVA**
Creu GVA ychwanegol net o £1.06bn a £1.29bn.

**Porth Caergybi**
Adennill tir, gwaith diogelu ac ymestyn oes y morglawdd, gwelliannau mynediad a gwelliannau i gapasiti'r porthladd.

# Y Prosiectau

## Safle Strategol Warren Hall

Bydd cyllid y Cynllun Twf yn darparu'r caniatâd statudol angenrheidiol ac yn darparu gwasanaethau sylfaenol i alluogi'r safle defnydd cymysg 65 hectar i gael ei brynu i'r farchnad i'w werthu ac yna ei ddatblygu gan y sector breifat.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £70m | Cynllun Twf £15m*

## Porth Y Gorllewin, Wrecsam

Bydd cyllid y Cynllun Twf yn darparu'r caniatad statudol angenrheidiol ac yn darparu gwasanaethau sylfaenol i alluogi'r safle i gael ei brynu i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £43.4m | Cynllun Twf £9.1m*

## Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan

Safle datblygu masnachol a phreswyl defnydd cymysg o 137 hectar. Bydd cyllid y Cynllun Twf yn darparu'r gwasanaethau sylfaenol i alluogi'r safle i gael ei brynu i'r farchnad i'w ddatblygu.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £82m | Cynllun Twf £10m*

## Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych

Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno i gyflwyno datblygiad masnachol a phreswyl defnydd cymysg. Bydd cyllid y Cynllun Twf yn helpu i ddarparu safle wedi'i glirio a'i adfer gyda gwasanaethau sylfaenol.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £74m | Cynllun Twf £4m*

## Porth Caergybi

Diogelu Porth Caergybi ar gyfer y dyfodol, drwy ddarparu cyfleusterau llwytho trwm dŵr dwfn a cyfleusterau mordeithio, gwell mynediad i gerbydau, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer gofynion prosiectau ynni rhanbarthol.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £80m | Cynllun Twf £35m*

## Parc Bryn Cegin, Bangor

Darparu gofod llawr diwydiannol i ateb y galw am unedau.

*Cyfanswm y Buddsoddiad £6m | Cynllun Twf £6m*



# Y flwyddyn ddiwethaf

**David Mathews**
**Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo**

Ymunodd David Mathews â'r tîm fel Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo ym mis Ebrill 2020 gan arwain ar y gwaith o ddatblygu achos busnes y rhaglen a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Hydref 2020. Mae'r rhaglen yn becyn o fuddsoddiadau strategol mewn safleoedd allweddol ledled y rhanbarth i fynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu model llywodraethu cadarn yn cynnwys sefydlu bwrdd rhaglen a datblygu perthnasau allweddol i gefnogi'r rhaglen a'i huchelgeisiau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd bob dau fis gyda'r Grŵp Hwyluso Tai o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gogledd Cymru.

Mae'r pum safle datblygu strategol o fewn y rhaglen wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar symud ymlaen â materion cynllunio dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyflawniadau allweddol yn cynnwys cyflwyno datganiad tir cyffredin gyda Chyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad Warren Hall, Brychdyn yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint. Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno gan Jones Bros i ddatblygu safle Cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych, a disgwylir penderfyniad yn ystod 2021 i hysbysu'r gwaith o ddatblygu achos busnes. Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud ar brosiectau Porth y Gorllewin, Wrecsam a Pharc Bryn Cegin, Bangor. Mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan wedi darfod ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn adolygu'r polisi cynllunio ar gyfer y safle ar hyn o bryd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd i'w fabwysiadu yn 2023.

Mae prosiect Porth Caergybi yn parhau'n brosiect strategol allweddol i'r rhanbarth, fodd bynnag, mae sgôp y prosiect yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn wyneb costau cynyddol. Er gwaethaf hyn, mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud ar dderbyn y caniatadau statudol ar gyfer adfer tir ac adnewyddu'r morglawdd ac mae perthynas waith dda gyda Stena Line, eu hymgynghorwyr a swyddogion o Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae gyrwyr amgen ar gyfer buddsoddiad ychwanegol yn y porthladd yn cynnwys gwynt ar y môr, llongau mordeithio a phorthladd rhydd yn dal i gael eu hystyried.

Yn dilyn 2020 heriol, mae'r rhaglen yn parhau i adolygu'r galw am safleoedd ac eiddo ac er na wyddom eto beth fydd goblygiadau hir-dymor patrymau gweithio newydd ar natur y safleoedd datblygu sydd eu hangen, mae'r rhaglen mewn lle da i addasu i'r newidiadau hyn a chyflawni ar gyfer y Gogledd. Gyda rheolwr prosiect newydd yn dechrau ym mis Mai 2021 ac un swydd wag arall i'w llenwi, bydd gan y rhaglen yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni.



# Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

## Amcan Strategol

Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

## Buddsoddiad

| Buddsoddiad cynllun twf: | Buddsoddiad sector breifat: | Cyfanswm buddsoddiad: |
|---|---|---|
| £13m | £26.5m | **£39.5m** |

## Amcanion Gwariant

**Creu swyddi**

Creu rhwng 145 ac 180 o swyddi.

**Ymchwil ac arloesedd**

Cydweithio gyda 55 o bartneriaid diwydiant y DU, rhyngwladol neu fusnesau bach a chanolig eu maint i ddatblygu technolegau carbon isel a lleihau gwastraff.

**Ymestyn integreiddiad economiadd hyrwyddo mabwysiadu'r dechnoleg**

Cyfnerthu cydweithio rhwng Prifysgolion rhanbarthol a busnesau i hyrwyddo mabwysiadu technolegau. Cefnogi tri phrosiect ymchwil a cydweithredol y flwyddyn i datblygu technolegau newydd.

**Buddsoddiad**

Buddsoddiad o rhwng £36m a £43m.

**GVA**

Creu GVA ychwanegol net o £94m a £114m.

**Datblygu sgiliau**

Darparu hyfforddiant ac uwchsgilio 100 o fobl / busnesau yn y technolegau a dargedir dros y pum mlynedd cyntaf.

# Y Prosiectau

### Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB)

Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru, gan adeiladu ar fuddsoddiad cychwynnol o £5miliwn gan ERDF i gapasiti ymchwil. Mae'r prosiect hefyd yn ceisio denu cwmnïau yn y sector biocatalysis i'r Gogledd i gymryd mantais ar y buddion clystyru a chydgrynhoi y mae'r rhanbarth yn eu cynnig yn sgil ei arbenigedd hir-sefydlog mewn biobeirianneg.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £9.6m | Cynllun Twf £3m***

### Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau (yn Wrecsam a Llanelwy) sydd wedi'u targedu i hybu datblygiad sgiliau lefel uchel ar gyfer y rhanbarth a galluogi busnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, ar ymchwil a datblygiad sy'n cael ei lywio'n fasnachol.

***Cyfanswm y Buddsoddiad £29.8m | Cynllun Twf £10m***



# Y flwyddyn ddiwethaf

**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf**

Cafodd y rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ei datblygu yn wreiddiol gan dîm y Swyddfa Rheoli Rhaglen ynghyd a chefnogaeth gan noddwyr prosiectau sef Prifysgol Glyndwr ac Prifysgol Bangor. Nod y rhaglen yw cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel sector gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol. I wneud hyn, byddwn yn adeiladu ar arbenigeddau presennol yn y rhanbarth drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu mewn ymchwil a datblygu, gan gefnogi anghenion busnesau hir sefydlog ac busnesau newydd.

Ym mis Hydref, ymunodd Robyn Lovelock â'r tîm fel Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf, gan ddarparu capasiti oedd wir ei angen i yrru'r rhaglen ymlaen.

Mae cynnydd y rhaglen ac datblygiad y prosiectau yn unol â chanllawiau Better Business Case wedi ei oruchwylio gan y bwrdd rhaglen, wnaeth ddeillio o'r grŵp llywio rhaglen gwreiddiol. Mae'r Bwrdd wedi bod yn rhagweithiol yn ymchwilio sut all y Cynllun Twf gefnogi trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd a chefnogi busnesau orau i wireddu nod cyffredinol y rhaglen, yr amcanion gwariant ac y buddion a oedd wedi'u cynllunio.

Mae chwarter olaf y flwyddyn wedi'i dreulio'n canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau, yn bennaf y prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter, gyda Phrifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Mae'r prosiect hwn yn datblygu Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd i gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais ac mae wedi cwblhau adolygiad sicrwydd allanol (Porth) yn ddiweddar. Mae'r prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol dan arweiniad Prifysgol Bangor ar gam cynharach yn ei ddatblygiad, gyda'r adnoddau'n canolbwyntio ar fireinio sgôp y prosiect ar hyn o bryd, gyda ymgysylltu pellach efo rhan ddeiliaid wedi gynllunio yn hwyrach yn 2021.

Mae'r rhaglen a'r ddau brosiect ymchwil a datblygu mewn lle da i wneud cyfraniad sylweddol i economi'r Gogledd drwy ymchwil, datblygu a masnacholi ym meysydd biotechnegol, celloedd tanwydd hydrogen, cyfansoddion ac opteg.

**Mae'r rhaglenni Sgiliau a Chyflogaeth a Thrafnidiaeth Strategol yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf. Mae'r rhaglenni'n allweddol i gyflawni'r weledigaeth ehangach ar gyfer y Gogledd ac mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a thrwy ei Is-fwrdd Trafnidiaeth i gyflawni'r rhaglenni hyn.**

## Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd wrth osod sylfeini'r rhaglen sgiliau a chyflogaeth. Wrth i ni adfer o heriau economaidd uniongyrchol Covid-19 ac edrych ymlaen i ddatblygu sylfaen talent o'r radd flaenaf, mae angen i ni ddatblygu ecosystem sgiliau mwy deinamig a hyblyg yn y rhanbarth, sy'n cau'r bylchau sgiliau ac yn cyfatebu'r galw am sgiliau gyda'r cyflenwad yn well drwy gydweithio'n agosach gyda chyflogwyr a diwydiant.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Byd Gwaith a Cymru'n Gweithio i ddarparu broceriaeth ac ymateb cyflym i helpu cyflogwyr yn ystod y flwyddyn heriol hon. Mae cyflogwyr wedi derbyn cefnogaeth gyda chyfatebu unigolion i swyddi, rydym wedi treialu'r dull gweithredu hwn gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gyda'u hanghenion recriwtio i swyddi Olrhain a Phrofi a gydag Ysbyty Enfys. Yn ystod y flwyddyn nesaf hon, ein bwriad yw adeiladu ar y prosiect broceriaeth drwy ganolbwyntio ar SMEs sy'n 'anodd eu cyrraedd' sy'n aml heb amser, capasiti nag ymwybyddiaeth i ymgysylltu â darparwyr sgiliau ond yn amlach na pheidio maent yn rhannu'r un pryderon a'r gofynion gweithlu cyffredin.

Yn ogystal, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddatblygu'r sgiliau sydd ar y gweill ar gyfer ein buddsoddiadau cyfalaf yn y rhanbarth, yn cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r angen am sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) a sgiliau digidol wedi'i amlygu fel her allweddol i gyflogwyr, yn arbennig wrth i swyddi a sectorau esblygu yn ein heconomi. Mae angen i ni ddatblygu gweithlu STEM, ac er mwyn gwneud hyn, bydd arnom angen lif digonol o fyfyrwyr ysgolion uwchradd sydd â diddordeb mewn sgiliau STEM a digidol. Os ydym am ymateb yn rhanbarthol gyda gweithlu i'r dyfodol sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau i fodloni cyfleoedd STEM ledled y rhanbarth yn y dyfodol, mae angen ymagwedd gydlynol a chyngor a chyfarwyddyd gyrfa da i helpu i lywio unigolion tuag at rai o'r cyfleoedd hyn. Mae gwaith yn digwydd yn y rhanbarth i ddatblygu datganiad STEM ac ymchwilio i gyfres o hybiau STEM a fyddai'n ysbrydoli unigolion am yrfaoedd mewn diwydiannau yn ymwneud â STEM yn y dyfodol. Rydym wedi sefydlu grŵp clwstwr diwydiant sgiliau digidol i helpu i hysbysu ein dealltwriaeth am yr heriau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu.

## Y Rhaglen Trafnidiaeth

Mae cael rhwydweithiau trafnidiaeth effeithiol a dibynadwy sy'n cysylltu'r Gogledd â marchnadoedd a chyrchfannau allweddol yn hanfodol i gefnogi economi sy'n ffynnu. Sefydlodd y Bwrdd Uchelgais Is-fwrdd Trafnidiaeth i gefnogi a blaenoriaethu buddsoddiad yn ein rhwydweithiau trafnidiaeth a gweithio ledled y rhanbarth i gyflawni gwelliannau. Mae'r ffocws cynyddol ar ddiogelu ein hamgylchedd wedi cynyddu'r angen i ddarparu dewisiadau amgen gwirioneddol i drafnidiaeth ffordd, yn cynnwys rhwydweithiau cludiant teithwyr gwell sy'n integreiddio'n iawn.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cefnogi Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru gyda datblygu pecyn trafnidiaeth integredig wedi'i frandio fel Metro Gogledd Cymru. Mae rhai prosiectau cyffrous yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a fydd yn yn arwain at welliannau trawsffurfiol i rwydweithiau rheilffordd a bysiau'r rhanbarth dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys gorsafoedd rheilffordd newydd a rhagor o gapasiti ar ein rhwydwaith rheilffordd, mae cynigion i integreiddio bysiau a rheilffordd ynghyd â theithio llesol ar waith, ynghyd â rhaglenni o ansawdd i gyflawni brandio, gwybodaeth a threfniadau tocynnau gwell. Y nod yw sicrhau bod dewisiadau amgen hyfyw i deithio mewn car ar gael i'r holl drigolion ac ymwelwyr.

Lawr yn llaw â gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, mae datgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth yn flaenoriaeth gynyddol. Mae paratoi'r rhanbarth ar gyfer cyflwyno cerbydau trydan heb allyriadau ar dipyn o gyflymder, gydag isadeiledd gwefru digonol, yn flaenoriaeth. Mae'r Bwrdd Uchelgais hefyd wedi arwain ar ddatblygu hwb hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy, i gyd-fynd ag un arall sy'n cael ei ddatblygu yng Nghaergybi, a'r nod yw rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad yng nghyd-destun cyflwyno technolegau cerbydau cell tanwydd a thanwydd hydrogen. Bydd achosion busnes i weithredu hyn yn cael eu cwblhau dros y flwyddyn nesaf.

Mae cyhoeddi Llwybr Newydd - Strategaeth Trafnidiaeth Cymru wedi'i ddiweddaru, yn gosod rhaglen uchelgeisiol o welliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, cynigion datgarboneiddio ac agenda heriol ar gyfer newid. Dros y flwyddyn nesaf, bydd gwaith yn dechrau ar ddiweddaru Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, mewn ymateb i'r agenda sydd wedi'i osod gan Llwybr Newydd.

# Gwerth Ychwanegol

## Yr Ymateb Rhanbarthol i Covid-19

Roedd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ran allweddol wrth gydlynu a chefnogi'r rhanbarth yn ystod pandemig Covid-19 gan arwain ar y gwaith o ddatblygu strwythurau rhanbarthol i rannu gwybodaeth a dysg.

## Cefnogi'r broses o drosglwyddo i economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll ecolegol

Datganodd y Bwrdd Uchelgais ei ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, allyriadau sero net a bioamrywiaeth ym mis Mawrth 2021.

## Swyddi

Yn ystod 2020-21, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi gwneud 15 penodiad wrth dyfu'r swyddfa rheoli portffolio, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu gyrfa newydd yn y rhanbarth.

## Cyllid

Mae'r tîm wedi sicrhau cyllid ychwanegol o £265k gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau o fewn y rhanbarth.

## Cydweithredu

Mae'r tîm wedi datblygu strwythurau cydweithio ffurfiol ac anffurfiol ar draws y bartneriaeth gan gynnwys cymryd rhan reolaidd mewn byrddau llywodraethu, gweithdai datblygu prosiectau a digwyddiadau ymgysylltu rheolaidd gyda busnesau, cryfhau rhwydweithiau a chyfleoedd cydweithio ar draws y rhanbarth.

## Hyrwyddo

Mae'r tîm wedi hyrwyddo'r Gogledd a Chynllun Twf Gogledd Cymru mewn nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys Wythnos Cymru Llundain.

## Arbenigedd

Rydym yn datblygu canolfan ragoriaeth ranbarthol ar gyfer cyflawni prosiectau. Wedi datblygu arbenigedd mewn datblygu Gwell Achosion Busnes, mae'r tîm wedi bod yn gweithredu fel ffrind beirniadol i brosiect ail-ddatblygu Theatr Clwyd yn ddiweddar.

# Llywodraethu

## Cytundeb Llywodraethu 2

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ynghyd ag arwain ar gydweithio economaidd rhanbarthol. Wedi sicrhau'r Cynllun Twf, mae'r partneriaid wedi cytuno i ymrwymo i ail Gytundeb Llywodraethu ("GA2") a fydd yn cefnogi'r bartneriaeth i wedd nesaf gweithredu'r Cynllun Twf a datblygu'r Weledigaeth Twf ymhellach.

Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd. Hefyd, gwneir darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau'r partneriaid i'r prosiectau a sut caiff y rhain eu rheoli a'u dosrannu.

## Llywodraethu'r Cynllun Twf


Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Tra bod y Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, mae cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol cryf â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel arianwyr y Cynllun Twf. Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Bwrdd Uchelgais wedi cytuno i fabwysiadu Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd Cynlluniau Twf a Bargeinion Dinesig. Mae'r dull gweithredu hwn yn seiliedig ar ddefnyddio Rheolaeth Rhaglenni a Phrosiect ac arfer gorau o ran Llywodraethu a Sicrwydd yn briodol ac yn gymesur, wedi'u tanategu gan Gynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) er mwyn cydbwyso trosolwg y Llywodraeth a gofynion y partner cyflawni rhanbarthol.

## Trefniadau Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i nodi yn 'Government Functional Standard GovS 002: Project Delivery'. Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur cyflawni prosiectau'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer y Cynllun Twf:

### Strwythur Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf





## Adrodd

Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynhyrchu adroddiadau cynnydd chwarterol ac adroddiad blynyddol ar y Cynllun Twf a gaiff eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Bwrdd Uchelgais a'i bartneriaid. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan.

## Trefniadau Craffu

Darperir swyddogaeth craffu Cynllun Twf Gogledd Cymru gan y chwe awdurdod lleol drwy eu trefniadau Pwyllgorau Craffu presennol. Bydd y Pwyllgorau Craffu yn ystyried yr adroddiadau chwarterol a blynyddol a gaiff eu cynhyrchu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

# Cynllun Twf Gogledd Cymru - Cynllun Cyflwyno Prosiect




Tudalen 72



# Y Flwyddyn Nesaf

**Alwen Williams**
**Cyfarwyddwr Portffolio**

Er ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn cael ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â chyrraedd carreg filltir hanesyddol gyda llofnodi Cynllun Twf Gogledd Cymru, rhagwelir y bydd y flwyddyn nesaf sydd o'n blaenau hyd yn oed yn fwy cyffrous.

Bydd yr holl gynllunio a pharatoi gofalus gyda phartneriaid yn arwain at fuddsoddiadau'n cael eu gwneud, asedau newydd ar gyfer y rhanbarth yn cael eu creu a chyfleoedd newydd a chyffrous yn cael ei gwireddu dros y flwyddyn nesaf.

Fel tîm sydd wedi datblygu'n rhithiol yn ystod 2020, edrychwn ymlaen at gryfhau y tîm ymhellach a chwblhau'r broses recriwtio. Gyda dim ond dwy swydd arall i'w llenwi yn ystod 2021, bydd yn dda cael yr holl dîm gyda'i gilydd ac edrychwn ymlaen at adeg pan fyddwn i gyd yn medru gweithio'n ddiogel gyda'n gilydd yn y swyddfa.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cychwyn ar raglen uchelgeisiol o ddatblygu achosion busnes gyda nifer o Achosion Busnes Amlinellol wedi'u cynllunio i gael eu hystyried gan y Bwrdd Uchelgais. Rhagwelwn hefyd y byddwn yn gwneud ein penderfyniadau buddsoddi terfynol cyntaf ar brosiectau cyn diwedd y flwyddyn, a fyddai'n golygu dechrau cyflawni prosiectau a buddsoddiad yn llifo i'r rhanbarth.

Wrth i ni fwrw ymlaen gyda chyflawni'r Cynllun Twf, mae ein delwedd a'r wybodaeth yr ydym yn ei rhannu gyda'r cyhoedd yn fwyfwy pwysig. Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu brand newydd a gwefan newydd ac edrychwn ymlaen at lansio'r rhain dros y misoedd nesaf.

Gobeithio fod yr adroddiad blynyddol hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth ac y byddwch yn parhau i ddilyn ein cynnydd yn ystod y flwyddyn nesaf.

# Manylion Cyswllt


E-bost:
**info@buegogleddcymru.co.uk**

Twitter:
**@BUEGogleddCymru | @NorthWalesEAB**

Facebook:
**BUE Gogledd Cymru**

LinkedIn:
**BUE Gogledd Cymru | North Wales EAB**

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## 2020-21 Chwarter 4
## (Ionawr – Mawrth 2021)
## Adroddiad Perfformiad



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio....3
2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio....4
3. Rhaglen Digidol....5
4. Rhaglen Ynni Carbon Isel....7
5. Rhaglen Tir ac Eiddo....9
6. Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth....11
7. Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel....12
8. Prosiectau'r Cynllun Twf sydd ar y Gweill - Mawrth 2021....13
9. Prosiectau'r Cynllun Twf - Proffil Cyllid Cyfalaf Mawrth 2021....14
10. Atodiad A - Crynodeb o'r Prosiectau....15

Roedd y **weithred o lofnodi'r Cynllun Twf Terfynol ym mis Rhagfyr 2020** gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn garreg filltir arwyddocaol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ar ddiwedd blwyddyn heriol iawn i economi'r Gogledd o ganlyniad i Covid-19.

Gyda'r Cynllun Twf wedi'i lofnodi, mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar **symud i'r cam cyflawni.** Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2021 gydag adolygiad gwaelodlin o'r holl brosiectau i ail-gadarnhau amserlenni ar gyfer datblygu a chyflawni achosion busnes. Unwaith y cwblhawyd yr ymarferiad hwn, roedd y ffocws ar fwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau.

Dros y tri mis diwethaf, mae **nifer sylweddol o weithdai wedi'u cynnal, yn unol â'r canllawiau Better Business Case**, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys nifer o randdeiliaid a buont yn gyfle i ni ac arianwyr ein prosiectau i brofi, herio ac ail-gadarnhau cefnogaeth i'r prosiectau.

Mae **Adolygiadau Porth** yn rhan allweddol o'n proses sicrwydd a chymeradwyo, gan ddarparu pwynt gwirio annibynnol i benderfyniadau allweddol. Fe wnaeth portffolio'r Cynllun Twf ymgymryd â'i Adolygiad Porth yn ystod mis Awst 2020 fel rhan o'r broses i sicrhau'r Cynllun Twf Terfynol, ac yn ystod y chwarter hwn rydym wedi gweld ein dau brosiect cyntaf yn ymgymryd â'u Hadolygiadau Porth.

Fe wnaeth prosiect Morlais, dan arweiniad Menter Môn a'r prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, gwblhau eu hadolygiadau a bellach maent yn gweithio ar roi sylw i'r argymhellion a wnaed cyn cyflwyno'r achosion busnes diwygiedig i'w hystyried.

Law yn llaw â bwrw ymlaen ag achosion busnes y prosiectau, mae'r **Swyddfa Rheoli Portffolio wedi parhau i osod y sylfeini ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf** yn llwyddiannus drwy fireinio a chytuno ar y strategaeth fasnachol, egwyddorion caffael a chytuno ar ddatganiad sefyllfa ar newid hinsawdd ac ecolegol i'n galluogi ni i weithio gydag arianwyr prosiectau i gyflawni uchelgais y Bwrdd ar gyfer y rhanbarth.

Yn olaf, wedi llofnodi'r Llythyr Dyfarnu Grant a chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol, fe wnaethom **dderbyn y rhandaliad cyntaf o £16 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU** ym mis Mawrth 2021. Bydd y cyllid yn galluogi i ni ddechrau cyflawni'r prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, pan ddisgwyliwn ystyried a gwneud penderfyniad ar ein gwedd gyntaf o achosion busnes y prosiectau.

*Alwen Williams*

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio



| Themâu | RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Achos Busnes y Portffolio** | Gwyrdd | Cymeradwywyd Achos Busnes y Portffolio fel rhan o'r Cytundeb Twf Terfynol ym mis Rhagfyr 2020. Caiff yr achos busnes ei ddiweddaru'n flynyddol, gyda'r diweddariad cyntaf wedi'i amserlennu ym mis Awst 2021. |
| **Llywodraethu** | Gwyrdd | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn weithredol. Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau bellach yn cael ei gweithredu, gan ddechrau gyda'r Bwrdd Cyflawni Busnes. |
| **Sicrwydd** | Gwyrdd | Mae'r broses sicrwydd rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda. Mae Morlais, prosiect cyntaf y Cynllun Twf, wedi cwblhau ei Adolygiad Porth ac mae'n gweithio i roi sylw i'r argymhellion. Mae'r ddau brosiect nesaf, Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon a'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter ar y trywydd cywir ar gyfer eu Hadolygiadau Porth ym mis Ebrill a mis Mai yn y drefn honno. |
| **Adnoddau** | Ambr | Mae recriwtio i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau, gyda phum unigolyn newydd yn ymuno â'r tîm rhwng Ebrill a Mai 2021. Mae dwy swydd yn dal heb eu llenwi - Swyddog Arweiniol (Trafnidiaeth Strategol) a'r Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo ac mae opsiynau ar gyfer ail-hysbysebu yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. |
| **Cyllid** | Gwyrdd | Mae'r Llythyr Cynnig Grant wedi'i dderbyn a'i lofnodi a derbyniwyd y wedd gyntaf o gyllid (£16 miliwn) ym mis Mawrth 2021. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddeall goblygiadau'r cyhoeddiad gan Drysorlys Llywodraeth y DU eu bod yn cyflymu'r cyllid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. |
| **Risg** | Ambr | Mae proffil risg cyffredinol y Cynllun Twf yn sefydlog ac nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol newydd o bryder. Mae rhai risgiau arwyddocaol yn parhau yng nghyd-destun ambell i brosiect unigol ac mae archwaeth a gallu'r sector preifat i fuddsoddi yn y Cynllun Twf wedi Covid-19 yn parhau'n aneglur ar hyn o bryd. |
| **Monitro a Gwerthuso** | Ambr | Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddrafft diwygiedig o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso ac mae'n disgwyl adborth. Disgwylir i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso gael ei fireinio dros y flwyddyn nesaf wrth i'r ymagwedd i Wireddu Buddion aeddfedu. |
| **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | Ambr | Mae gwaith wedi dechrau ar y wefan a'r brand newydd gydag asiantaeth digidol creadigol o'r enw Tinint; fodd bynnag, mae'r gwaith ychydig ar ei hôl hi. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi dechrau ar bartneriaeth 12 mis gyda Business News Wales i ddarparu cefnogaeth cyfathrebu a marchnata ychwanegol. Yn ogystal, bydd dau gytundeb nawdd bychan gyda Wythnos Cymru yn Llundain a Wales Start-up Awards 2021 a fydd yn help i ddenu buddsoddiad yn y Cynllun Twf a'r Bwrdd Uchelgais a chodi eu proffil. |

Gwyrdd: Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Ambr: Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Coch: Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| Statws y Rhaglen | Sylwadau |
|---|---|
| | • Mae’r bwrdd rhaglen wedi blaenoriaethu tri phrosiect i’w datblygu yn ystod 2021 - Canolfan Prosesu Signal Digidol, Cysylltu’r Ychydig Ganrannau Olaf a Choridor Cysylltiedig.<br>• Mae’r prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol yn bwrw ymlaen â’r gwaith o ddatblygu’r OBC. Mae’r prosiect Ychydig Ganrannau Olaf wedi sefydlu bwrdd prosiect ac wedi penodi Uwch Swyddog Cyfrifol ac mae wedi cytuno ar gyfres o amcanion gwario SMART. Mae’r prosiect Coridorau Cysylltiedig wedi sefydlu bwrdd prosiect ac wedi penodi Uwch Swyddog Cyfrifol. Caiff astudiaeth sgopio ei chomisiynu i gefnogi’r gwaith o ddatblygu achos busnes y prosiect.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar ddiweddaru’r Strategaeth Cysylltedd Digidol rhanbarthol, a adolygwyd ddiwethaf yn 2019 a chynllunnir i ddrafft gael ei gyflwyno am gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais yn y chwarter nesaf. |



| **Prosiect**<br>(Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn | Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf | RAG |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>(Prifysgol Bangor) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Gweithdai achosion Strategol, Economaidd a Masnachol wedi'u cwblhau.<br>• Drafftiau cyntaf yr achosion Strategol ac Economaidd wedi'u cwblhau | • Adolygiad sicrwydd wedi'i drefnu ar 12 Mai.<br>• OBC drafft i fod yn barod ym mis Ebrill<br>• Y Bwrdd Uchelgais yn cymeradwyo'r OBC | |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>(Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Bwrdd Prosiect wedi’i sefydlu a’r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi’i benodi<br>• Gweithdai achos strategol wedi’u cwblhau ac amcanion gwario wedi’u diffinio<br>• Ymgysylltu â’r farchnad gyda’r bwrdd prosiect yn cwrdd â chyflenwyr posib mewn cyfres o gyflwyniadau | • Gweithdai achos economaidd i’w cynnal a’r OBC i’w ddrafftio<br>• Adolygu aelodaeth y Bwrdd Prosiect<br>• Adolygiad sicrwydd i’w drefnu | |

Yn cyflawni yn unol â’r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn** | **Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf** | **RAG** |
|---|---|---|---|---|
| **Coridor Cysylltiedig** (Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu a'r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi'i benodi<br>• Gweithdai achos strategol cychwynnol wedi'u cynnal<br>• Bwrdd Prosiect wedi adnabod yr angen am astudiaeth sgopio i wella'r achos strategol<br>• Briff ar gyfer yr astudiaeth sgopio wedi'i ddrafftio | • Astudiaeth sgopio i'w chyflawni<br>• Gweithdai sy'n weddill i'w cynnal a'r OBC i'w ddrafftio<br>• Adolygu aelodaeth y Bwrdd Prosiect<br>• Adolygiad sicrwydd i'w drefnu | Ambr |
| **Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol** (Y Bwrdd Uchelgais) | Wedi'i atal | • N/A | • Cynllunnir datblygu achos busnes y prosiect yn ddiweddarach yn 2021 | Gwyrdd |
| **Campws Cysylltiedig** (Y Bwrdd Uchelgais) | Wedi'i atal | • N/A | • Cynllunnir datblygu achos busnes y prosiect yn ddiweddarach yn 2021 | Gwyrdd |



Gwyrdd: Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Ambr: Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Coch: Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| Statws y Rhaglen | Sylwadau |
|---|---|
| | • Derbyniwyd drafft cyntaf OBC Morlais gan y PMO i'w adolygu a chwblhawyd adolygiad porth ar y prosiect ym mis Chwefror 2021. Mae gwaith ar y gweill bellach gan Menter Môn i roi sylw i'r argymhellion a datblygu drafft nesaf yr OBC i'w ystyried.<br>• Mae cynnydd da wedi'i wneud ar y Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth, gyda gwaith yn bwrw ymlaen ar Hybiau Hydrogen Glannau Dyfrdwy a Chaergybi. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn llwyddiannus yn caffael Jacobs i gyflawni'r SOC a'r OBC ar gyfer hwb Glannau Dyfrdwy ac mae'r Rheolwr Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth wedi'i recriwtio i arwain ar y prosiect, a bydd yn cychwyn yn ei swydd ym mis Ebrill. Mae cynnydd cadarnhaol tebyg wedi'i wneud ar y prosiect Ynni Lleol Blaengar gyda dau weithdy achos strategol wedi'u cynnal, amcanion gwario SMART wedi'u datblygu ac Aquaterra wedi'u caffael i gyflawni astudiaeth Amlffynhonnell Llŷn.<br>• Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ac mae cynlluniau yn eu lle i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol dros y chwarter nesaf.<br>• Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol Ddrafft yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021. |



| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn** | **Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf** | **RAG** |
|---|---|---|---|---|
| **Morlais** (Menter Môn) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cyflwynwyd OBC drafft i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn dilyn y gweithdai achos busnes<br>• Cynhaliwyd Adolygiad Porth i adolygu pa mor barod yw i gael ei gyflawni a'r OBC drafft<br>• Ymchwiliad Cyhoeddus wedi'i gynnal ar gyfer y prif gais cynllunio | • Penodi prif gontractwyr<br>• Cwblhau'r broses o ailddosbarthu angorfeydd<br>• Y Bwrdd Uchelgais i ystyried yr OBC | |
| **Datgarboneiddio Trafnidiaeth** (Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Mae cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu SOC ac OBC<br>• Jacobs wedi'u caffael i gefnogi'r gwaith o Ddatblygu SOC ac OBC ar gyfer Hwb Hydrogen Glannau Dyfrdwy<br>• Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi | • Project Manager to start in post<br>• SOC and OBC reports to be received | |

Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn | Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf | RAG |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel** (Prifysgol Bangor) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu<br>• Cyfres o weithdai mewnol i adolygu'r achos strategol a datblygu'r cynnig | • Gweithdai Achos Busnes i'w cynnal<br>• Parhau i ddatblygu OBC drafft | |
| **Ynni Lleol Blaengar** (Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Gweithdai 'Achos dros Newid' wedi'u cynnal i adnabod amcanion gwario, anghenion busnes a sgôp posib y prosiect<br>• Mae astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer system ynni amlffynhonnell YnNi Llŷn wedi'i dyfarnu i Aquaterra - sydd wedi ymgymryd â gwaith tebyg yn Ynysoedd Erch | • Bwrw ymlaen â'r gweithdai datblygu'r Achos Busnes<br>• Parhau i ddatblygu'r OBC drafft<br>• Ar fin derbyn adroddiad YnNi Llŷn | |
| **Gorsaf Bŵer Trawsfynydd** (Cwmni Egino) | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Sefydlu Cwmni Egino, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2020<br>• Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Arup i asesu effaith economaidd Adweithydd Modwlar Bach neu Uwch yn Nhrawsfynydd | • Ymgysylltu â Chwmni Egino, y Llywodraeth a phartneriaid allweddol ynghylch cynlluniau i ddatblygu'r prosiect | |

Tudalen 81

Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| Statws y Rhaglen | Sylwadau |
|---|---|
| | • Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych dan arweiniad y datblygwr Jones Bros sy'n bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes.<br>• Mae datblygwr posib wedi mynegi diddordeb yn safle Parc Bryn Cegin, Bangor.<br>• Mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan wedi darfod a bydd angen adolygu'r prosiect unwaith y bydd y polisi cynllunio diwygiedig ar gyfer y safle wedi'i bennu.<br>• Mae Warren Hall, Brychdyn yn parhau ar y trywydd cywir ac yn amodol ar fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Mae nifer o ddibyniaethau a chyfyngiadau a fydd yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer safle Porth Wrecsam.<br>• Mae risg ariannu yn parhau mewn perthynas â phrosiect Porthladd Caergybi yn sgil costau cynyddol. |



| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn** | **Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf** | **RAG** |
|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam** (Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddeb cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthod caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain ar gynnydd mewn llif traffig ar Gyffordd 4 yr A483 | • Bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes | |
| **Warren Hall, Brychdyn** (Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Datganiad Tir Cyffredin wedi'i gwblhau gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'r Bwrdd Uchelgais i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol drafft | • Negodi Cytundeb Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru | |
| **Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan** (Y Bwrdd Uchelgais) | Mae sgôp y prosiect yn cael ei adolygu | • Caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi darfod ar 21 Mawrth, 2021 | • Bydd angen adolygu'r prosiect unwaith y bydd y polisi cynllunio diwygiedig ar gyfer y safle wedi'i bennu. | |

Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| **Prosiect**<br>(Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn** | **Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf** | **RAG** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych**<br>(Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu<br>• Cais cynllunio wedi'i gyflwyno gan Jones Bros i Gyngor Sir Ddinbych | • Disgwylir penderfyniad ar y cais cynllunio ym mis Ebrill/Mai 2021<br>• Bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes | |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>(Y Bwrdd Uchelgais) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae datblygwr posib gyda hanes o gyflawn wedi mynegi diddordeb yn y safle | • Bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda'r datblygwr posib<br>• Bwrw ymlaen â datblygu'r achos busnes | |
| **Porth Caergybi**<br>(Stenaline) | Mae sgôp y prosiect yn cael ei adolygu | • Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Llywio i ddarparu cyfarwyddyd ar gyflawni'r gweithgareddau sy'n disgyn o fewn Porth Caergybi<br>• Mae costau diwygiedig y prosiect yn dangos y byddant o fewn amrediad sy'n sylweddol uwch na'r amcangyfrifon gwreiddiol | • Proses caniatâd ar gyfer y gwaith ar y Forglawdd i ddechrau. | |

Tudalen 83

Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| Statws y Rhaglen | Sylwadau |
|---|---|
| | • Mae'r amserlen ar gyfer datblygu achosion busnes yn parhau'n dynn.<br>• Mae'r prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn parhau ar y trywydd cywir gyda'r holl weithdai wedi'u cwblhau.<br>• Mae'r amserlen ar gyfer gweithdai Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i hadolygu i gyd-fynd â'r rheolwr prosiect newydd yn dechrau yn ei swydd, fodd bynnag, mae'r gystadleuaeth arloesedd busnes WBRID gyda Choleg Cambria Llysfasi wedi darparu sail gadarn ar gyfer y prosiect.<br>• Mae cynnydd yn cael ei wneud ar elfen Hwb y Rhwydwaith Talent Twristiaeth. |



| **Prosiect**<br>(Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn** | **Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf** | **RAG** |
|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>(Grŵp Llandrillo Menai) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Hatch Regeneris wedi'u penodi i gefnogi gweithdai<br>• Mae gweithdai ar gyfer pob un o'r pum prosiect wedi'u cwblhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu OBC | • Cyflwynwyd OBC drafft i'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'w adolygu<br>• Cynnal yr adolygiad Porth 2 | |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>(Coleg Cambria) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Ymchwil a chynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau ffermio manwl gywir a charbon isel<br>• Ymgysylltu gyda busnesau lleol i bennu anghenion sgiliau<br>• Rheolwr Prosiect wedi'i benodi | • Rheolwr Prosiect i ddechrau yn y swydd<br>• Gweithdai Achos Busnes i ddechrau<br>• Cynllunio ar gyfer adolygiad Porth 2 | |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>(Grŵp Llandrillo Menai) | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Mae'r elfen Hwb yn parhau i gael ei gynllunio wrth baratoi ar gyfer y cais Ysgolion 21ain Ganrif (i gyd-fynd ag amserlen y Cynllun Twf) | • Amserlen y gweithdai yn cael ei drafftio gyda'r gweithdy cyntaf wedi'i drefnu ym mis Mai 2021<br>• Adolygiad yn ymwneud â COVID o'r elfen 'adain' gyda'r bwriad o ehangu partneriaid | |


Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen

| Statws y Rhaglen | Sylwadau |
|---|---|
| | • Mae'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter, dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, wedi cwblhau Adolygiad Asesu Prosiect (PAR) ym mis Mawrth fel rhan o'r broses o ddatblygu'r achos busnes ac mae'r tîm yn gweithio ar yr argymhellion cyn cyflwyno'r OBC i'r Swyddfa Rheoli Portffolio ac adolygiad Porth 2.<br>• Mae'r prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol dan arweiniad Prifysgol Bangor ar gam cynharach yn ei ddatblygiad, gyda'r adnoddau'n canolbwyntio ar fireinio sgôp y prosiect ar hyn o bryd. |

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol y chwarter hwn** | **Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer y chwarter nesaf** | **RAG** |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** (Prifysgol Glyndŵr) | Mae'r Prosiect yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Dogfennau cefnogol wedi'u paratoi ar gyfer yr Adolygiad Porth<br>• Adolygiad Porth wedi'i wneud<br>• Gweithdai Achos Busnes wedi'u cynnal | • Cwblhau Gweithdai Achos Busnes<br>• Rhoi sylw i argymhellion yr Adolygiad Porth<br>• Cyflwyno OBC drafft i'r Swyddfa Rheoli Portffolio<br>• Cynnal yr Adolygiad Porth 2 | |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** (Prifysgol Bangor) | Mae'r prosiect yn datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Gweithdy mewnol wedi'i gynnal i adolygu naratif strategol y prosiect a deall sgôp y prosiect yn well. | • Gweithdai pellach i helpu i fireinio'r prosiect.<br>• Yn dilyn y rhain, bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dechrau | |



Yn cyflawni yn unol â'r cynllun heb faterion i roi sylw iddynt. Dim angen gweithredu
Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt. Camau rheolaethol yn eu lle
Cyflawni ar ei hôl hi (+3 mis) a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt. Camau brys eu hangen




Nodyn: Mae amserlenni dosbarthu yn rhai dros dro hyd nes y cymeradwyir achos busnes prosiect

| Rhaglenni | Prosiect | Ariannu'r Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | Cyf (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | 1.72 | 0.99 | 0.25 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Y Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 3.45 | 3.25 | 0.00 | 0.00 | 6.70 |
| Digidol | Coridor Cysylltiedig | Y Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 1.18 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.17 |
| Digidol | Campws Cysylltiedig | Y Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 3.94 | 5.90 | 5.91 | 4.93 | 20.68 |
| Digidol | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Y Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | 2.46 | 4.93 | 1.48 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni Carbon Isel | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 4.74 | 6.71 | 5.23 | 4.00 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 4.92 | 9.85 | 4.93 | 0.00 | 19.70 |
| Ynni Carbon Isel | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Y Bwrdd Uchelgais | 1.97 | 3.94 | 3.94 | 1.38 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni Carbon Isel | Ynni Lleol Blaengar | Y Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 3.94 | 7.88 | 7.88 | 4.93 | 24.63 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 11.33 | 13.78 | 9.36 | 0.00 | 34.47 |
| Tir ac Eiddo | Warren Hall, Brychdyn | Y Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.49 | 0.99 | 5.91 | 7.38 | 14.77 |
| Tir ac Eiddo | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Y Bwrdd Uchelgais | 0.99 | 0.99 | 0.98 | 0.98 | 0.00 | 3.94 |
| Tir ac Eiddo | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Y Bwrdd Uchelgais | 0.49 | 0.99 | 5.41 | 2.96 | 0.00 | 9.85 |
| Tir ac Eiddo | Parc Bryn Cegin, Bangor | Y Bwrdd Uchelgais | 0.25 | 2.70 | 2.96 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Y Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 4.03 | 4.93 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo-Menai | 0.49 | 4.68 | 4.68 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 4.92 | 4.93 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo-Menai | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 1.47 | 0.00 | 4.43 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 8.28 | 1.57 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | | | **Costau Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | | | | | 3.60 |
| | | | **Cyfanswm** | | | | | 240.00 |

| Programme | Project | Sponsor | Summary |
|---|---|---|---|
| Digidol | Cysylltedd Cystadleuol – Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Y Bwrdd Uchelgais | Bydd y prosiect hwn yn darparu cysylltedd ffibr llawn (addas ar gyfer gigabit) i 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws Gogledd Cymru. |
| | Campws Cysylltiedig | Y Bwrdd Uchelgais | Bydd y prosiect yn cyflymu datblygiad isadeiledd ar gyfer 19 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| | Coridor Cysylltiedig | Y Bwrdd Uchelgais | Cyfanswm o 156km o goridor ffordd a rheilffordd wedi'i gysylltu â 5G/Rhwydweithiau Mynediad Di-Wifr Pŵer Isel, ar hyd coridor yr A55 a'r llwybr prif lein rheilffordd cyfagos. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Y Bwrdd Uchelgais | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat sy'n buddsoddi i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol. |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae safle Trawsfynydd yn cynnig ei hun yn berffaith wneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at seilwaith galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | Datblygu'r seilwaith ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd. |
| | Ynni Lleol Blaengar | Y Bwrdd Uchelgais | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Y Bwrdd Uchelgais | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi | StenaLine | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mor deithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| | Porth Y Gorllewin, Wrecsam | Y Bwrdd Uchelgais | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Y Bwrdd Uchelgais | Cyflawni prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Y Bwrdd Uchelgais | Darparu'r prif wasanaethau er mwyn galluogi datblygiad masnachol a phreswyl fel bod modd dod a'r safle i'r farchnad i'w werthu a datblygu. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Y Bwrdd Uchelgais | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo wrth gyflawni safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dod a datblygiad masnachol a phreswyl ymlaen. |
| | Parc Bryn Cegin Safle Strategol | Y Bwrdd Uchelgais | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Diogelu darpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig a'r un sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth. Nod Rhwydwaith Talent yw ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndwr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau (yn Wrecsam a Llanelwy) sydd wedi'u targedu i hybu datblygiad sgiliau lefel uchel ar gyfer y rhanbarth a galluogi busnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, ar ymchwil a datblygiad sy'n cael ei lywio'n fasnachol. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **28 Mehefin, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| | |
|---|---|
| | Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Medi, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 11/06/21]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)- 2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 (i'w gadarnhau) | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Hydref, 2021 (14/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21)** |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 | Craffu ar Bartneriaethau |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 (2021-22) Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| | |



**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardaloedd Seiriol / Amlwch | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Cynlluniau Adfer (Covid-19) |
| Cynllun Rheoli Asedau / Man-ddaliadau | |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 | |
| Cynlluniau Adfer (Covid-19) | |